YR YMOFYNYDD.

Rhif. 30.] MEHEFIN, 1861. [Ail Gyfres.

SEFYLLFA WAREIDDIOL Y CYMRY.

V. Sefyllfa Wareiddiol y Cymry yn bresenol.

(Parhad o tudal 105.*)*

Yn ei chysylltiad ag Addysg, mae cyflwr y Dywysogaeth yn fwy anffafriol. Ei hiselder yn yr ystyr hwn a barodd yr ymweliad yn 1847; ac er fod yr ymwelwyr wedi drwgliwio y wlad lawer yn ormodol, nid oedd eu hachwyniadau yn hollol ddiachos, gan fod Cymru mewn addysg dyddiol, yn gystal ag mewn rhif ysgolion ac ysgoleigion, ac yn nheithi yr addysg a weinyddid, yn îs ei chyflwr na Lloegr. Yn 1833, yn ol adroddiad Lord Kerry, yr oedd cyfartaledd Cymru a Lloegr, yn un ysgolaig o bob un ar ddeg o'r trigolion; ond ar ol cynnyddu dros gan mil mewn trigolion, ac wedi mwynhau cyfleusderau mawrion i wellâu ei chyflwr, yr oedd Cymru yn 1847, ar ol pedair blynedd ar ddeg, yn waeth ei chyflwr nag oedd Lloegr yn 1833, gan nad oedd ond un plentyn ysgol i bob *tri ar ddeg* o'r trigolion. Mae y cynhwrf a achosodd y "Llyfrau Gleision," a'r ymdrechion olynol wedi dyrchafu y wlad ryw gymaint: ond y mae eto alwad mawr am ymdrechion ychwanegol, fel y gwelir oddiwrth rif yr ysgoleigion yn 1851.

	Poblogaeth.	Ysgoleigion.	Cyfartâledd.
Gogledd Cymru	412,114	37,084	1 o bob 11
Deheudir	593,607	50,921	1 o bob 11

Yn y cyfamser, yr oedd Lloegr wedi cadw yn y blaen; a thra yr oedd ysgolblant Cymru ond braidd un o bob un ar ddeg, cyflwr Lloegr yn 1833, oedd cyfartaledd Cymru a Lloegr yn un o bob 8, ac o ganlyniad eiddo Lloegr ei hun yn fwy na hyny. Mae prawf arall o iselder addysg ddyddiol i'w gasglu oddiwrth y Cofrestrau Priodasol. Yn 1830, yr oedd o bob cant o'r dynion a briodasant yn Nghymru 48 yn analluog i ysgrifenu eu henwau, a 69 o fenywod, yn erbyn 33 a 49 yn Lloegr; yn 1844 yr oedd y cyfartaledd yn 44 a 67, yn erbyn 33 a 49—ychydig o wellâd; ac yn 1847, yr oedd y Gogledd a'i chyfartaledd o anwybodaeth yn yr ystyr yma 26 yn uwch na'r gyfartaledd gyffredin, tra yr oedd y Deheudir 39 yn uwch. Mae hyn yn dangos diffyg addysg; ac yn neillduol arwydda fod merched Cymru yn cael eu hesgeuluso lawer yn fwy na'r meibion, a llawer iawn yn fwy na merched Lloegr. Gobeithir y deffry Cymry i deimlad o bwysigrwydd y ddysg ddyddiol, ac y gwneir ymdrechion gwrol i roddi chwareu teg i feibion a merched y Dywysogaeth gael ennill eu ffordd yn y byd, ac y cefnogir hwynt trwy addysg foreuol i enwogi eu hunain, i addurno eu hoes, ac i adlewyrchu

anrhydedd ar wlad eu genedigaeth. Heb addysg dyddiol yn nyddiau eu hieuenctyd, mae hyn yn anmhosibl; a chan hyny, hyderaf yr ymgryfha y Dywysogaeth i symud ymaith y gwarth a orphwys arni yn awr.

Ond ni ddylid collfarnu hen Walia, cyn ystyried un o'i phrif neillduolion; canys os yw wedi esgeuluso addysg dyddiol, mae wedi rhagori ymhell ar ei chymydogion trwy ei hegni yn achos yr Ysgolion Sabbothol. Mae ysgol yn gysylltiedig â'r rhan fwyaf o gapeli Cymru, a mawr a mân yn cyrchu i dderbyn yr addysg a roddir yno, i ddysgu darllen os nad ysgrifenu, i wneyd eu hunain yn hyddysg yn yr Ysgrythyrau, ac i wneyd eu hunain yn ddeiliaid teilwng o'r byd a ddaw, heb ofalu am yr hwn sydd yr awrhon. Y canlyniad yw, fod y mwyrif yn alluog i ddarllen, er nad i ysgrifenu; ac fod yr Ysgolion Sabbothol yn dylanwadu yn helaeth ac yn fuddiol iawn ar foesau a daliadau crefyddol y genedl Gymreig. Saif Cymru yn yr ystyriaeth yma yn anrhydeddus yn y *Census* diweddaf, sef 1851; yr oedd ynddi 269,378 o Ysgoleigion Sabbothol, sef,

Yn y Gogledd....	132,967, hyny yw,	33 o bob cant,	1 o bob 3
Deheudir ..	136,411 "	22 "	2 o bob 9

a'r cyfartaledd mwyaf yn y Gogledd. Mae y rhif yma yn dyrchafu Cymru ymhell uwchlaw ei chymydoges Lloegr, gan nad yw y cyfartaledd uchaf yno, sef Sir Bedford, ond 19 yn y cant, tra yr oedd yn Llundain ond 5 yn y cant, ac nad oedd cyfartaledd y deyrnas oll ond ychydig yn rhagor na 7, yn erbyn 33 yn Ngwynedd. Mae yr Ysgol Sabbothol yn goron i Gymru, ac yn addurn i Ymneillduaeth, er fod llawer o le i wellâu yn yr addysg a roddir, a llawer o alwad am hyny o ddiwygiad.

Dylem yn yr un cysylltiad sylwi fod sefydliadau eraill yn y wlad, a chanddynt mewn golwg barhau yr addysg a roddir yn yr ysgolion, gweinyddu graddau uwch o wybodaeth, a gwrteithio y meddwl â gwybodaethau gwyddorol, celfyddydol, a llenyddol. Mae llyfrfäoedd a chymdeithasau gwyddorol mewn amryw drefydd trwy y Dywysogaeth. Mae llyfrfa gyhoeddus yn Merthyr, Dowlais, Castellnedd, Abertawe, Chaerfyrddin, a llawer o fanau eraill yn y Deheudir; ac amryw eraill yn y Gogledd. Yr oedd 26 o honynt yn 1851, yn Neheubarth, a 14 yn y Gogledd; a dichon eu bod wedi amlhau yn y blynyddau canlynol. Mae sefydliad o'r fath yn dueddol i wneyd llawer iawn o les, ac i daenu llawer o wybodaeth gyffredinol; a gresyn ydyw nad ydynt yn cael mwy o gefnogaeth. Da genyf weled hefyd fod llyfrfäoedd yn cael eu sefydlu mewn cysylltiad ag Ysgolion Sabbothol: gwn fod pedair neu bump o'r cyfryw yn Merthyr Tydfil, a gobeithiaf fod y cynllun yn cael ei ddilyn mewn manau eraill. Mae y symudiad yn dra chanmoladwy, a charwn ei weled yn gyffredinol. Carwn hefyd weled y cynllun yn cael ei ëangu; ac i'r Cymry fynu iddynt eu hunain lyfrfäoedd cenedlaethol, yn cynnwys yr holl lyfrau sydd yn argraffedig yn yr iaith Gymraeg, ymha rai y derbynid, heb un eithriad, gyhoeddiadau misol a chwarterol yr holl enwadau cyffredinol. Byddai sefydliadau o'r fath o les annhraethol, ac nid wyf yn gweled un anhawsder anorchfygol ar y ffordd.

Mewn perthynas â Masnach, mae yr olygfa ar y dalaeth yn bur gysurus, gan fod y mwyrif o'r trigolion yn ennill arian da, ac mewn meddiant o brif gysuron bywyd. Mae y profion o'u diwydrwydd yn taro y llygaid ar unwaith, yn Ngwynedd yn y chwarelau *slates* neu lechfeini, ac yn y Deheudir yn y gweithiau haiarn, glo, a chopr. Mae chwarelau Sir Gaernarfon, yn gystal a

gweithiau Sir Forganwg, yn rhyfeddodau y byd; maent yn cynnal trigolion niferol y siroedd hyn ac eraill; ac wedi casglu tuag atynt y rhanau goreu a mwyaf deallus o'r gradd gweithgar yn y Dywysogaeth. Lleëir y wlad yn gyffredinol ganddynt, gan fod y siroedd amaethyddol yn ymddibynu ar y rhai celfyddydol; ac y maent yn cynnyddu yn feunyddiol yn swm eu masnach, a rhif eu trigolion; ac nid oes achos i ammheu na pharha y siroedd hyn, a'r Dywysogaeth yn gyffredinol, i ymgryfhau o flwyddyn i flwyddyn, nes y deuir i ystyried Cymru yn un o'r rhanau mwyaf gwerthfawr yn y deyrnas Brydeinig. Mae cynnydd y wlad yn y can' mlynedd diweddaf yn dra rhyfeddol. Yn y flwyddyn 1740 nid oedd ond 59 o ffwrneisi haiarn yn Nghymru a Lloegr, y rhai a wnaent 17,500 o dunelli yn y flwyddyn; ond yn 1839 gwnaed yn agos i gan' cymaint a hyny,—sef 1,248,781 o dunelli; ac y mae yn ddiammheu fod y gwneuthuriad yn awr lawer yn fwy. Yn 1740 ni wnaed ond 2000 o dunelli yn Neheudir Cymru, ond yn 1839 yr oedd y gwneuthuriad yn 453,800 yn y Deheudir a Sir Fynwy, a 33,800 yn y Gogledd, sef agos i ddau can' cymaint a hanner. Gwelir yma fod Cymru yn cynnyrchu yn agos i hanner cymaint o haiarn a wneir trwy y deyrnas; ac os cymherir yr *exports*, ceir fod dwy ran o dair o'r holl allborthiadau yn myned o Ddeheubarth Cymru. Yr oedd yr allborthiadau oll yn 92,313 yn 1827, ac yn 1850 yn 772,865, sef dros wyth cymaint; ac yr oedd cynnydd Cymru yn agos yr un fath. Danfonwyd 82,904 o dunelli o Gaerdydd a Chasnewydd yn 1817; ond yn 1847, danfonwyd oddiyno a threfydd eraill ddim llai na 511,590 o dunelli.

Gellir dyweyd yr un peth am fasnachau eraill. Yn 1790, yr oedd ychydig o fân longau yn ddigon i gyfleu y cwbl o ddanfoniadau y Deheudir i wledydd eraill; ond yn 1846, allborthwyd yn Nghasnewydd, Caerdydd, Abertawe, a Llanelli, y rhif rhyfeddol o 1,847,315 o dunelli o lô yn unig; ac yn y flwyddyn hono ystyrid fod gwerth yr allborthiad o bob math, *dros saith myrddiwn o bunnau*, y rhan fwyaf o'r hwn swm a delid yn y Deheudir a Sir Fynwy, am lafur gweithwyr. Heblaw y glo a'r haiarn, dylid cofnodi y gweithiau copr. Yr oedd cynnyrch y deyrnas yn 1853 yn 22,000 o dunelli; a phob tunnell yn werth chwech ugain punt; ac o'r cyfanswm hyny, aeth naw rhan o ddeg o Abertawe, Aberafon, Castellnedd, a Llanelli.

Os rhoddir y cwbl at eu gilydd, bydd y darllenydd yn fwy galluog i ffurfio barn am fawredd masnachol Deheudir Cymru. Danfonwyd 294,596 o dunelli o haiarn, a 950,829 o dunelli o lô, i Gaerdydd, o Ferthyr, Aberdar, Glyn Rhondda, &c.; ac y mae y danfoniad presennol lawer yn fwy. Ond cymerer hyn yn safon; a rhaid ystyried fod danfoniad Casnewydd lawn cymaint. Cyfrifer bob tunell o haiarn yn werth naw punt, ac o lô yn werth deg swllt. Yna cawn y ffeithiau canlynol :—

		£
Caerdydd....	Glo a Haiarn.....	3,127,278
Casnewxdd ..	Glo a Haiarn.....	3,127,278
Manau eraill..	Copr o bob math	3,745,520
	Tin plates, &c.	842,399
	Haiarn o bob math	1,792,880
	Glo Carreg	196,850
	Glo Môr	661,540
		£13,503,745

Ymddengys gan hyny fod masnach y Deheudir yn unig yn werth dros dair myrddiwn ar ddeg a banner o bunnau bob blwyddyn; ac y mae yn rhaid fod rhan fawr o'r swm hwn yn cael ei dalu yn gyflog i weithwyr y Dywysogaeth. Nid oes genyf ffeithiau o'r un fath i osod allan gynnydd gweithiau glo, haiarn, a llechfeini y Gogledd; ond gan fod amryw o'r gweithfeydd yn cynnal dwy fil o ddynion, rhaid fod masnach Gwynedd yn dra chyfrifol. Gwelais (yn mis Medi) hysbysiad yn nghanol Iwerddon (Enniskillen) fod *Newcastle Coal and Best Bangor Slates* yno ar werth, ac y mae porthladdoedd Bangor, Caernarfon, ac eraill, yn ymddibynu bron yn hollol ar y fasnach hon. Mae gweithiau mŵn a glo yn Sir Fflint, a Sir Ddinbych, ond nid ydynt i'w cymharu â gweithiau y Deheudir. Eto, os gosodir y cwbl ynghyd, gwelir fod masnach y Dywysogaeth yn dra chyfrifol.

Tra yr oedd masnach y wlad yn èangu felly, cynnyddodd y trigolion yn agos yr un cyfartaledd. Yr oedd y cynnydd yn fwyaf yn nghymydogaeth y gweithfeydd. Cynnyddodd Merthyr o 7,705 yn 1801, i 34,957 yn 1841, a 46,389 yn 1851, sef deugain mil mewn hanner can' mlynedd. Cynnyddodd Aberdar o 1,486 i 14,998 yn yr un amser; Caerdydd o 1,876 i 16,007; Casnewydd o 1,423 i 19,323; a Llanelli, plwyf o 2,072 hyd 13,516, a'r dref o 4,173 yn 1831 hyd 8,566 yn 1851. Ond yr oedd y cynnydd yn gyffredinol; amlhäodd trigolion Siroedd Cymru yn gyflym iawn yn yr un cyfnod :—

	1801.		1851.	Cyfartaledd yn y cant.
Sir Aberteifi	o 42,956	hyd	70,796	65
Frycheiniog ..	" 31,633	"	61,474	90
Gaerfyrddin ..	" 67,317	"	110,632	64
Faesyfed	" 13,050	"	24,716	29
Forganwg	" 74,525	"	231,849	223
Benfro	" 56,280	"	94,140	66
Sir Gaernarfon	" 42,521	"	87,870	111
Ddinbych	" 60,352	"	92,583	54
Drefaldwyn ..	" 47,978	"	67,335	40
Feirionydd ...	" 27,506	"	38,843	32
Fôn	" 33,806	"	57,327	68
Fflint	" 39,622	"	68,156	72
Gogledd Cymru	o 251,785	hyd	412,114	63
Deheudir Cymru	" 289,761	"	593,607	105
Cymru oll	o 541,546	"	1,005,724	84

Hyny yw, mewn geiriau byrion, mae pob cant o ddynion oedd yn 1801, wedi cynnyddu yn yr hanner can' mlynedd, i 163 yn Ngwynedd, i 184 yn Nghymru oll, i 205 yn Neheubarth, i 211 yn Sir Gaernarfon, i 323 yn Sir Forganwg, ac i 344 yn Sir Fynwy. Y tri chyfartaledd olaf yw yr uchaf yn yr holl deyrnas; ac o ganlyniad y siroedd yna a gynnyddasant fwyaf mewn cyfoeth a masnach hefyd.

(I'w barhau.)

Dyro i mi y rhyddid i wybod, i feddwl, i gredu, ac i lefaru yn rhydd yn unol a chydwybod, uwchlaw pob rhyddid arall.—*Milton.*

Nid oes neb yn fwy teilwng o dosturi na'r rhai hyny sydd ganddynt y moddion i foddloni eu chwantau cyn eu bod wedi dysgu eu llywodraethu hwynt.

AT DDIACONIAID AC AELODAU SOAR, LLANDYFAN.

Yn y goleu i'r Parch. Lewis Evans, Llandilo, a chwithau, daflu cryn lawer o sarhad a dirmyg arnaf, tybiwyf ei fod yn deg i minnau gael cyfleusdra i amddiffyn fy hun. Maes yr ymosodiad oedd y *Seren Cymru*, newyddiadur pythefnosol dwy geiniog, perthynol i'r Bedyddwyr: ac yn gymaint a rhyngu bodd i'r Golygydd dysgedig wrthod cyhoeddi fy nhrydydd llythyr ar y pwnc, cynygaf hyn o sylwadau i dudalenau yr Ymofynydd.

Mae yn ffaith bwysig a galarus, nad oes nemawr o Undodwr erioed wedi cael chwareu teg i amddiffyn ei hun yn y misolion a'r cyhoeddiadau Cymraeg; tra o'r ochr arall, y rhoddir pob cyfleusdra i'w gwrthwynebwyr i'w drwgliwio a'u henllibo yn mhob dull a modd. Agorir drysau y swyddfeydd yn lled y pen i'r gelyn i arllwys ei lysnafedd arno, a chollfernir ef, y "Sosin" druan, fel yr *heretic* a'r anffyddiwr gwaethaf; a phan gynygo amddiffyn ei hun a'i olygiadau, deg i un na fydd digon o esgusodion yn barod wrth law i'w gaued allan! Felly yn gymwys y mae yn bod yn yr amgylchiad dan sylw. Ac yn mhellach, modd y gallo darllenwyr yr Ymofynydd wybod sut y mae pethau yn sefyll rhyngwyf a'r Parch. Lewis Evans, Llandilo, ac â'r frawdoliaeth yn Soar, Llandyfân, rhoddaf yma grynodeb byr o'r ffeithiau, a bydded i bob dyn diragfarn a diduedd i farnu rhyngom. Caf ddechreu gyda Mr. Evans.

Yn mis Awst diweddaf, rhyngodd bodd i'r goruchel Dduw, yn nhrefn ei ddoeth ragluniaeth, alw ato ei hun un o'm anwyliaid bychain, yn flwydd a saith mis oed, yr hon, meddaf, a garwn megis fy enaid fy hun. Yn fuan wedi hyn ymddangosodd *paragraph* hynod gyda Mr. Evans yn y *Seren Cymru* ar yr amgylchiad, mewn cysylltiad â rhyw *ffrae* oedd wedi tori allan ar y pryd rhyngddo a rhai o'i frodyr y Bedyddwyr, pryd y defnyddiodd y brawddegau hynod, ïe, hynod a ganlyn,—"*Cyflafan y claddu:*" "*o ddydd cyflafan y claddu yn Llandybie, hyd y dydd heddyw;*" gan gyfeirio at gladdedigaeth fy mhlentyn anwyl a hoff. Ac meddai, "*profir i foddlonrwydd i'r offeiriad ymddwyn yn berffaith y boneddwr tuag at y ffactrwr yn nghylch claddedigaeth ei blentyn.*" Yr oedd y fath ymosodiad a hwn o eiddo gweinidog (!) yr efengyl yn galw yn uchel am gerydd llym. Yn ganlynol, mi anfonais ato trwy gyfrwng y *Seren Cymru*, i ofyn eglurhad ganddo ar y gair "cyflafan," a rhoddais iddo gyda llaw fflangelliad nad anghofia mo honi yn fuan, oddieithr ei fod yn groendew iawn. Byth wedi hyny mae wedi bod mor ddistaw a'r "ceiliog yn y crochan." Mae'r fath ymadroddion caled a'r rhai uchod, o eiddo Mr. Evans, wedi ac yn parhau i fod yn ffynonell o dristwch a gofid i'm teulu, fel y gallaf gyda'r priodoldeb mwyaf ei alw yn ysbeiliwr fy nedwyddwch, ac yn llofrudd fy nghysur teuluaidd.

Nid yw hon ond un enghraifft o laweroedd o ystranciau iselwael y brawd o Llandilo. Yn hyn mae yn dwyn delw ei flaenor mawr o *Geneva*. Rhag y fath egwyddor "gwared fi Arglwydd daionus." Mae genyf air bach arall i'w ddweyd ar y pen hwn etto cyn terfynu, a hyny yw, ei fod heb "brofi" i'r offeiriad "ymddwyn yn berffaith y boneddwr" tuag attaf. Os gwnaeth yr offeiriad felly, yr oedd yn rhagori ar Evans fil o weithiau, gan iddo ef ymddwyn tuag ataf yn "berffaith" y *blackguard*.

Ond y gwir yw hyn, mai myfi fy hunan a anfonodd genad yn unswydd at yr offeiriad i'w hysbysu o'r ffaith nad oeddwn wedi bedyddio y plentyn, ac o ganlyniad nad oeddwn yn chwenych gwasanaeth ei barchedigaeth yn yr am-

gylchiad. Mae yn wir ofidus genyf orfod coffâu y pethau hyn yn awr, am fod teimlad tyner, ynghyd a gwylder, yn cael ei archolli ; ond 'does dim i'w wneyd yn ngwyneb y fath amgylchiadau.

Gadawer i mi ddwyn fy nhystiolaeth yn y fan hon, fy mod yn hoffi bod yn *blain* ac yn onest yn fy holl ymwneyd, am fod fy egwyddor yn fy ngorfodi i fod felly. A phe dysgai yr Ymneillduwyr o bob enwad y wers hon, a bod yn fwy annibynol, byddai yn hawddach trafod yr offeiriaid o lawer. Deuent trwy hyny i adnabod y gallem fforddio bod heb eu gwasanaeth hwy. Ond nid felly y mae, ysgwaethiroedd.

Yn awr, fe wel y darllenydd pwyllog a diduedd, fod yma ryw annghysondeb mawr mewn egwyddor gyda Mr. Evans: efe yn Fedyddiwr mawr ei hun, ac yn weinidog (!) ar eglwys o Fedyddwyr yn Llandilo—yn cyfrif bedydd plant ond gwegi,—ac yn y diwedd yn galw "cyflafan" ar gladdedigaeth syml plentyn difedydd. Ond diolch, fe ddywedodd un arall yn fwy parchus am y rhai bychain—"*Eiddo y cyfryw rai yw teyrnas nefoedd.*"

Gadawn Evans yn y fan hon, a rhaid brysio yn mlaen at y gweddill o'r llith. Rhaid bod yn gynil iawn gyda'r pwnc hwn, am y byddwn yn cyffwrdd â theimladau pobl ereill yn awr. Ein teimladau ni oedd yn cael eu harcholli gynau, ond ereill yn bresenol. Chwi ellwch gymeryd fy ngair, y byddaf mor dirion ag sydd bosibl, ac heb enwi neb, na chyfeirio at neb yn bersonol.

Yn awr, fe welwyd ar unwaith y priodoldeb o fedyddio'r plant, er mwyn cael y ffafr o fyned a hwy i'r Eglwys wrth gael eu claddu. Yr oedd y *Scarlet Fever* yn gwneuthur byr waith ar blant yr ardal; ac i fedyddio awd o ddifrif, heb golli amser, pob enwad fel eu gilydd, nid yn gymaint am ysgrythyroldeb y ddefod, ond am y pwys o gael claddedigaeth reolaidd, a chael mynediad rhwydd a helaeth i mewn i'r lle cysegredig. Y rheol oedd bedyddio, eithriad oedd peidio. Ond ag eglwys Soar, Llandyfân, mae a fynwyf yn bresenol. Fe syrthiodd yr eglwys hon i'r unrhyw brofedigaeth; aeth amryw o'i haelodau a'u plant i'r Eglwys Sefydledig i'w bedyddio; a thyna lle 'roedd cysondeb mewn proffes, onite?

Yn y cyfamser mi anfonais yr ail lythyr i'r *Seren Cymru*, gan nodi yn bur fanol pa mor llwyddianus yr oedd y bedydd bach (neu'r daenell) yn myned rhag ei flaen yn Llandybïe, ac yn enwedig felly yn Soar, Llandyfân, gan nodi ffeithiau noeth, yn cynwys enwau y personau, y dydd o'r mis y buont yn bedyddio, ac yn mha leoedd. Cadwyd y llythyr hwnw am chwech wythnos cyn iddo gael ymddangos; mi anfonais at Mr. Price, Aberdar, sef Golygydd y *Seren*, i ofyn iddo paham yr oedd yr ysgrif cyhyd cyn dyfod allan. Dywedais wrtho ei fod yn ymddwyn yn bartïol iawn, a dymunais arno ddychwelyd fy ysgrif, modd y gallaswn ei throsglwyddo i ryw Gyhoeddiad mwy rhydd. Beth bynag, hi wnaeth ei hymddangosiad yn y *Seren* ganlynol, gyda nodyn wrth ei chynffon, wedi ei arwyddo gan ddim llai nag un-ar-ddeg o aelodau Soar, Llandyfân, sef pedwar diacon, a saith o rai ereill, yn gwadu nad oedd neb o'r Eglwys hono yn euog o fyned a'u plant i'r Eglwys i'w bedyddio. O! haerllugrwydd digyffelyb, a dweyd y goreu!

Mewn attebiad i'm llythyr cyfrinachol at y Golygydd, derbyniais oddiwrtho gyda throad y *post* lythyr sarug a thaeog, teilwng (*?*) iawn o weinidog ffyddlon Iesu Grist. Gan ei fod wedi ei ysgrifenu mewn yspryd a thymer mor ragorol, barnwn na fyddai yn anfuddiol ei gyfleu yma. Mae yn rhedeg fel y canlyn:—

"*Rose Cottage, Aberdare, Chwefror* 22, 1861.

"SYR,

"Yr wyf wedi cymeryd 'chydig o drafferth fwy nag arfer gyda golwg ar eich Hysgrif chwi—aeth oddiyma i'r Swyddfa yn rheolaidd. Mae yno hefyd amryw o'i blaen hi o lawn cymaint pwys, ond heb ymddangos yn *unig* o ddiffyg lle. Ond os yw o gymaint pwys genych ei chael yn ol er ei throsglwyddo i rhyw Swyddfa arall, mae i chwi bob groesaw o gwrs; danfonwch am dani i'r Swyddfa. Nis gallaf fi ddodi mwy yn y *Seren* na'i llon'd, am hyny mae llawer ysgrif yn gorfod aros. Mae rhai yn aros heb fy nghyhuddo o *ymddygiad partïol*. Mae ambell un—ond *ambell* un yw—fel chwi, os na cha ei ffordd ei hun yn y fynyd, mae yn digio, ac yn credu fod y Golygydd yn ddyn *anonest*. Mae blynyddau o brofiad yn hyn wedi'n gwneyd yn ddifater iawn am rhyw fygythion fel yr eiddoch chwi.

"Yr eiddoch,

"Mr. Job Davies." "THOMAS PRICE.

Barned y darllenydd am deilyngdod y nodyn uchod. A geir ynddo dymer yr addfwyn Iesu? Mae rhai personau, os cânt eu dyrchafu i fod yn Olygwyr newyddiadur ceiniog, yn barod iawn i ymchwyddo, a braidd na chredant nad yw yr holl gysawd yn troi ar eu hysgwyddau. Bwriadwn derfynu ein llith yn y nesaf.

Yr eiddoch,

Llandybïe. JOB DAVIES.

EFFEITHIAU ANGHYMMEDROLDEB.

YR oedd y gauaf wedi myned heibio, a haul mwyneiddiach y gwanwyn wedi ymweled unwaith etto â'r ddaear. Yr oedd yr olygfa yn ddengar, ac yr oeddwn wedi gadael si y dref am awr i fyfyrio ar harddwch gweithredoedd fy Nuw fel y mae yn ddadguddiedig yng ngweithredoedd natur. Wedi dianc oddiwrth swn y grefft, yr hon oeddwn yn arfer ei dilyn, esgynais i uchelfan cyfagos, fel y gallaswn gael gwell golwg ar y wlad oddiamgylch. Yr oedd y ddaear wedi ei dilladu â harddwch; yr oedd yr awyr yn llawn o beroriaeth creaduriaid dedwydd; y weilgi yn cludo ar ei fynwes drysorau masnach llwyddianus; yr oedd pob peth fel be byddai yn llefaru am haelioni rhyw Fod Goruchel; ac yr oeddwn innau yn synnu a oedd yn bosibl y gallasai neb o'i blant droseddu ei orchymmynion a hwythau yn gweled yr aneirif brofion yna o'i ddaioni, i fynu, i waered, o amgylch ac o fewn iddynt.

Ar y funnud honno tynnwyd fy sylw at ddau ddyn, y rhai oeddent dippyn o ffordd oddiwrthyf. Yr oedd un ar y ddaear yn ymddangos fel pe byddai wedi marw, a'r llall yn ymdrechu, ond yn ofer, i'w gludo i annedd-dy ar bwys. Yr oedd yn codi y corph di-allu oddiar y llawr, yn ei symmud ychydig gammau tuag at y tŷ; ond nid oedd yn alluog i fyned ag ef ymhellach. Gosododd ef etto ar y llawr, ac eisteddodd wrth ei ochr, fel pe byddai wedi penderfynu peidio ei adael. Gyda theimladau yn gymmysg o gydymdeimlad a chywreinrwydd, brysiais at y fan. Barnwch fy syndod, fy nhosturi, a'm atgasrwydd, pan y gwelais ddyn yn amser goreu ei fywyd, wedi ei lorio a'i yspeilio gan y llofrudd bradwrus hwnnw, Anghymedrolder! a bachgennyn ieuanc wrth ei ochr yn ceisio yn ofer i guddio ei waradwydd oddiwrth lygad

y byd. Gofynais i'r llanc, oblegid yr oedd ei wynebpryd yn llewyrehu gan ddealltwriaeth, beth allasai fod yn ei annog i ddangos y fath dynerwch tuag at un ag oedd yn agos wedi fforffedu pob hawl i'n tosturi. "Och!" meddai efe, "*fy nhad yw*," ac wylodd y dagrau yn hidl dros ei ruddiau. Gwelais yn awr fy mod wedi siarad yn rhy ddiystyriaeth, ac ymdrechais wella'r clwyf a wnes. "Mi a wn," meddai'r bachgen, "ei fod wedi fforffedu ei hawl i dosturi eraill, ond nid yw i'm eiddo i. Y mae wedi dystrywio ei gymmeriad a'i deulu, ac y mae arnaf ofn, ei holl obeithion dyfodol—ond pa fodd y gallaf dorri rhwymau cryfion nattur? Pa fodd y gallaf anghofio awdwr fy modoliaeth, ac amddiffynydd dyddiau fy mabandod." Canmolais wresogrwydd ei gariad; yr oeddwn yn synnu fod ei serch yn parhau mor ddileihâd, gan fod y gwrthddrych ar yr hwn yr oedd yn ei osod wedi cyfnewid mor druenus. "Syr," meddai'r gwr ieuanc, "a oes gennych chwi dad?" Attebais ei fod. "Maddeuwch i mi am wneuthur y tybiad eich bod, yn Rhagluniaeth Duw, yn cael eich galw i edrych ar ei gorph difywyd. Meddyliwch, hyd yn oed, fod ei farwolaeth yn cael ei frysio trwy bechod! A fyddech chwi oherwydd hynny yn debyg o wrthod iddo y gymmwynas olaf?" Attebais y buasai holl deimladau fy nattur yn troi i'r gwrthwyneb wrth feddwl y fath beth, "Yna," meddai efe, "yr ydych yn barod i werthfawrogi yr annogaethau sydd yn fy nghynhyrfu i. *Yr wyf yn edrych ar fy nhad fel pe byddai wedi marw.* Gwir yw, y mae yn anadlu, ac y mae'r gwaed yn rhedeg trwy ei wythiennau; ond ai hyn oll sydd yn gwneuthur i fynu fywyd dyn? Pa le mae'r llygad oedd gynt yn llewyrchu mor serchus arnaf?—y mae wedi cau. Pa le mae nerth a bywiogrwydd y dyn?—y maent wedi ffoi. Cyfarchwch iddo, nid yw'n clywed, nid yw yn atteb. Ymaflwch ynddo, nid yw yn ei deimlo. Oni bai fi, gallai'r eryr loddesta ar ei aelodau drylliedig, a gallasai hyd yn oed y moch sathru ar delw ag oedd unwaith mor ardderchog. Ac etto, meddwn innau, nid yw'r marwolaeth am yr hwn yr ydych yn siarad yn debyg i ysgariad y corph a'r enaid, yn derfynol ac yn ddialw-yn-ol. Adfywia yn union. "Och!" llefai'r bachgen, "pe buasech wedi ei weled unwaith yn dychwelyd i fywyd, wedi ei orchuddio â dychryniadau ei lygredd ei hunan; pe buasech ond wedi clywed ei ocheneidiau yng nghanol y nos, a chanfod effeithiau cnoadau'r gydwybod o fewn iddo; pe buasech yn ei weled yn ymdrechu yn galed i ddiwygio, ac yn y diwedd yn ymaflyd yn y cwppan, fel yr unig noddfa oddiwrth anobaith; ni fuasech, ni allasech grybwyll am y dadebriad dychrynllyd hwn, fel esmwythad ar ei gyflwr. Dyma'r cyflwr oddiwrth yr hwn y mae yn cilio fel oddiwrth faich annioddefol. Na, na, nid yw i ddyn i gael ei osod yn y bedd yn dawel dan euog-farniad cyffredinol dynolryw, yn ddim i'w gydmaru â'r llofruddiaethau diderfyn yma y mae efe yn eu gosod ar ei gorph ei hunan, a'r galanastra ofnadwy i'r hwn y mae yn arwain yn anocheladwy. Y mae yn marw mil o farwolaethau, a phob un o honynt yn ei barottoi ar gyfer trigfan tywyllach, a thywyllach etto, ym myd y trueni. O, fy nhad, fy nhad!"

Yr oedd yr olygfa yn awr wedi dyfod yn boenus i'm teimladau, ac yr oeddwn yn dymuno ymadael. Ond sut y gallaswn adael y bachgen serchus hwn, tra yr oedd, gyda'r fath zel canmoladwy, yn cyflawni dyledswyddau mabaidd? Cynygiais fy nghynnorthwy iddo, a chludasom yr adyn truenus i'w annedd, ac yma agorwyd ffynhonau tosturi o'r newydd. Torf o blant bychain, a gweddw alarus yn cwynfan oherwydd trueni ei phlant, gyda theimladau na fynnent eu cyssuro. Yr oeddwn yn dymuno gweinyddu cys-

auron yr efengyl i'r rhai oedd felly yn dioddef yn ddiniwed; ond gorchfygwyd fy nghydymdeimlad, ac aethum allan, wedi fy llethu braidd, wrth feddwl am greulondeb, euogrwydd, a melldith marwol ac anadgyweiriol *Anghymmedrolder*.

O mor wir ydyw! y mae taith ei ddistryw ymlaen o hyd. Y mae yn gwasgar ar led at eraill—yn rhuthro i mewn i'r cylch teuluaidd—ac yn dwyn gwae a gwylofain i bob man. Y mae yn torri ieuenctyd i lawr yn ei fywiogrwydd—yn amddifadu'r fam garuaidd—yn diffodd serch naturiol—yn dyhuddo cariad y plentyn—yn deifio gobaith rhieni—yn peri i benwynni henaint i ddisgyn i'r beddrod mewn tristwch. Y mae yn dwyn gwendid yn lle nerth, afiechyd yn lle iechyd, marwolaeth yn lle bywyd. Y mae yn gwneuthur gwragedd yn weddwon—plant yn amddifaid—tadau yn gythreuliaid—a phawb yn dlodion ac yn gardotwyr. Y mae yn groesawu twymnynon—yn porthi'r gewinwst—yn meithrin y gymhalwst—yn rhoddi groesaw i heintiau—gwahoddiad i'r *cholera*—yn achosi pläau—ac yn cofleidio'r darfodedigaeth. Y mae yn llanw ein carchardai—yn diwallu ein elusen-dai—ac yn rhoddi galwad am ein noddfäoedd. Y mae yn magu ymryson—yn maethu cynnen—ac yn achosi afreolaeth. Y mae yn beio cyfraith—yn dirmygu trefn—ac ac yn caru'r bileinllu. Y mae yn pentyrru ein penydfaoedd, ac yn parottoi ysglyfaeth i'r grogbren. Anghymmedrolder yw gwaed bywyd y *gambler;* lluniaeth yr hwn sydd yn bathu arian drwg; cynnaliaeth y lleidr-pen-ffordd, crib-ddeilwyr a mwrddwyr.

Y mae yn cefnogi'r celwyddog; yn parchu'r lleidr; yn caru'r twyllwr a'r athrodwr. Y mae yn difenwi caredigrwydd; yn casâu cariad; yn gwawdio rhinwedd; ac yn enllibo diniweidrwydd. Y mae yn annog y tad i ladd ei hiliogaeth; yn cynnorthwyo'r gwr i fwrddro ei wraig; ac yn helpu'r plentyn i lyfanu'r fwyall i dorri gwddf ei dad. Y mae yn llwyr-losgi'r dyn, yn difetha'r fenyw; y mae yn casâu bywyd; yn melldithio Duw ac yn dirmygu'r Nefoedd.

Y mae yn cyflogi gau-dystion; yn meithrin anudoniaeth; yn halogi'r *jury box*. Y mae yn llwgr-wobrwyo am enwau; yn anghymmwyso etholwyr; yn halogi ein etholiadau; yn llygru ein sefydliadau; ac yn peryglu ein llywodraeth.

Y mae yn diraddio'r dinasydd; yn bychanu'r cyfreithiwr; yn dianrhyddeddu'r gwleidiadwr; ac yn diarfogi'r gwladgarwr. Y mae yn dwyn cywilydd yn lle parch; dychryn yn lle diogelwch; anobaith yn lle gobaith; a thrueni yn lle dedwyddwch. Ac yn awr, gyda malais cythraul, y mae yn arolygu yn dawel y llefydd y mae wedi wneud yn anghyfanedd; ac heb ei ddiddiwallu etto a'i ddifrod, y mae yn gwenwyno dedwyddwch; yn lladd tangedd; yn dinystrio moesoldeb; yn deifio ymddiried; yn lladd cymeriad; yn sychu ymaith barch cenhedlaethol; ac yna yn melldithio'r byd ac yn gwenu ar ei garnedd.

C. F.

Pan glywodd Zeno ddyn ieuanc yn siarad yn rhy rydd, dywedodd wrtho,—"I hyn y derbyniasom ddau clust ac un tafod, fel y byddai i ni wrando llawer a dywedyd ychydig."

Y mae yn rhaid i'r rhai hyny sydd yn dymuno myn'd i'r nefoedd pan byddant farw, ddechreu eu nefoedd tra byddont byw.—*Henry*.

Cedwch eich tymher pan byddoch mewn dadl. Y mae'r morthwyl oer yn ffurfio yr haiarn poeth-coch i unrhyw ddull angenrheidiol.

COFIANT Y DIWEDDAR BARCHEDIG THEOPHILUS LINDSEY, M.A.

"Coffadwriaeth y cyfiawn sydd fendigedig."—SOLOMON.

Y MAE darllen ac olrhain hanes bywydau dynion o bob rhyw fath o gymeriadau yn ddiddorol iawn i bob dyn, ac ar yr un pryd yn addysgiadol ac o fudd neillduol; oblegid nis gall un dyn a ddarlleno unrhyw beth gyda phwyll a difrifoldeb lai na chasglu rhywbeth neu rhai pethau a fyddant o les iddo mewn rhyw fodd neu gilydd. Ond y mae darllen ac olrhain hanes bywyd dyn *da*, yr hwn fu yn llafurio yn ddiwyd ac yn wir ddefnyddiol yn ei oes a'i genhedlaeth, yn llawer mwy felly na'r dyn afradlon a drwg, yr hwn a dreuliodd ei oes yn hollol anffrwythlawn ac yn bechadurus, gan niweidio ereill, a'u gwneyd yn annedwydd fel ef ei hunan; oblegid y mae darllen am, a myfyrio ar y fath gymeriad (sef cymeriad da) yn dueddol iawn i grëu awydd yn y darllenydd pwyllog ac ymofyngar i ymdebygoli ac efelychu y person y maent yn darllen ei hanes. Fel y mae un yn tueddu i lygru a darostwng y meddwl dynol i safle isel a gwael, felly yn gymwys y mae y llall yn tueddu i'w dderchafu a'i wneud yn addurn i'w oes a'i genhedlaeth, ac yn wrthddrych teilwng o efelychiad—fel y mae un yn tueddu i anurddo y cymeriad a'i wneud yn atgas yngolwg pob dyn rhesymol, felly yn gymwys y mae y llall yn tueddu i nefoleiddio y tymerau a'r ymddygiad.

Yr ydym ni wedi cael cryn dipyn o bleser wrth ddarllen cofiant Mr. Lindsey gan y diweddar Mr. Belsham, o'r hwn yr ydym wedi dyfynu yr hyn a ganlyn:—

Ganwyd Theophilus Lindsey yn Middlewich, yn Swydd Gaerlleon (*Cheshire*) ar yr 20fed o Fehefin, yn y flwyddyn 1723. Enw ei dad oedd Robert, yr hwn oedd wedi deilliaw oddiwrth hen deulu parchus iawn yn Scotland. Yn ol yr hanes yr ydym yn gael am dano, ymddengys ei fod yn ddyn o gymeriad tra disglaer, ac mewn amgylchiadau lled dda yn y byd; ond, trwy afradlonrwydd ei fab henaf, o'r wraig gyntaf, aeth yn ol yn y byd i raddau helaeth iawn. Yr oedd ei ail wraig, sef mam Mr. L., yn perthyn o bell i deulu Marlborough; a chyn iddi ymuno mewn glân briodas bu yn byw dros ugain mlynedd yn nheulu Frances, Countess Huntingdon. Y mae y rhan fwyaf o ddarllenwyr yr YMOFYNYDD yn ddiau wedi clywed rhywbeth am y foneddiges enwog hon. Y mae rhai cymdeithasau crefyddol yn galw ei hunain ar ei henw hyd y dydd heddyw. Cafodd Mr. Robert Lindsey dri o blant o'i ail wraig, y ieuengaf o ba rai a enwyd yn Theophilus, ar ol ei dadfedydd, Iarll Huntingdon, yr hwn oedd fab i'r foneddiges a enwyd (Countess Huntingdon), ac wedi iddo ddyfod yn alluog i feddwl ac i wneuthur rhywbeth drosto ei hunan, darfu i Lady Betty a Lady Anne Hastings, cyfeillesau Mrs. L., sylwi maes o law ar dymer fwynaidd, talentau gobeithiol, ac yspryd difrifol ei mab ieuengaf, ac yn herwydd ei hynodrwydd yn y pethau a enwyd, darfu iddynt ei gymeryd o dan eu nawdd a'u gofal uniongyrchol, ac ymhen ychydig o amser wedi hyny symudasant ef o'r ysgol yr oedd ynddi, yn nghymydogaeth Middlewich, i Leeds, ac a'i gosodasant dan ofal y Parch. Mr. Bernard, yr hwn oedd feistr Ysgol Rydd Ramadegol yn y dref hono; ac ymddengys ei fod yn wr boneddig enwog mewn dysgeidiaeth a moes. Bu Mr. Lindsey amryw o flynyddau dan ei ofal ef, ac ymddengys iddo wneud cynnydd neillduol mewn amrywiol o ganghenau dysgeidiaeth, yn enwedig y *classics*.

Treuliai ei wyliau yn fwyaf cyffredin yn nhŷ ei noddwraig, ynghymydogaeth Leeds, yn ystod bywyd Lady Betty Hastings, ac wedi ei marwolaeth hi ym mhalas Ashby yn Leicestershire, ymha le yr oedd Lady Anne pryd hyny wedi gwneud ei chartref.

Wedi iddo gael cymaint o fanteision ymhob rhyw ystyr, a chan ei fod o dymer mor fwynaidd, ac wedi cael ei addysgu mor dda mewn llenoriaeth awdurol, yr oedd wedi ei gymwyso a'i addasu i'r man eithaf braidd gogyfer a myned i'r brif athrofa yn Cambridge, lle y derbyniwyd ef i Goleg St. John ar yr 21ain o fis Mai, yn y flwyddyn 1741, pan oedd o gylch 18 mlwydd oed. Ymhen ychydig o amser wedi iddo fod yno darfu i'w gyrhaeddiadau llenyddol a'i ymddygiad teilwng, canmoladwy, a disglaer. ddenu sylw cyffredinol ei gydysgoleigion, yn gystal ag ereill; a'r wedi iddo dreulio yr amser arferol yn y lle uchod, etholwyd ef yn aelod o gymdeithas St. John, yn Ebrill, 1747.

Pe buasai yn dewis treulio a chyssegru ei hunan i erlyniadau llenyddol, yr oedd yn debyg iawn y buasai iddo gyrhaeddyd enwogrwydd yn hyny. Ond ei brif awydd neu ei brif amcan ef bob amser oedd bod yn weinidog yr Efengyl, yn ol ei dystiolaeth ef ei hunan, yr hon sydd fel y canlyn:—"Darfu i mi, wedi treulio yr amser arferol yn y Coleg, fyned i'r weinidogaeth gydag awyddfryd mawr i ddwyn oddiamgylch dibenion gogoneddus yr efengyl." A chan ei fod wedi cael ei addysgu a'i ddwyn i fynu yn yr Eglwys Sefydledig, nid oedd yn teimlo un petrusder yn y byd ynghylch arferyd y *liturgy* a chydsynio â'r erthyglau.

Wedi iddo gael ei ordeinio gan Dr. Gibson, Esgob Llundain, pan yn 23ain oed, cafodd ei sefydlu mewn eglwys yn Spital Square yn y brif ddinas: ond ymhen ychydig amser wedi iddo gael ei sefydlu yn yr eglwys uchod, darfu Algernon Duc Somerset ymofyn am offeiriad i weinyddu iddo ef fel *chaplain* teuluaidd; ac wedi iddo gael y fath gymeriad i Mr. L., gan Francis, Iarll Huntingdon, gwahoddodd ef mor gynted ag oedd modd i'w dŷ, er cael clywed ganddo pa un ai buasai i dderbyn ei gynygiad ai peidio; ac wedi ymgyfeillachu â'u gilydd, penderfynodd Mr. L. ei dderbyn. A chyhyd ag y bu y Duc byw, ymddygodd tuag atto fel cyfaill mynwesol; ac wedi ei farwolaeth bu yn cyflawni ei swydd fel offeiriad i'r teulu dros rywfaint o amser ymhellach. Gwedi iddo roddi i fynu ei swydd fel caplain teuluaidd, cafodd eglwys gan Iarll Northumberland, yn Yorkshire, ar yr amod ei fod ef i'w rhoddi i fynu pryd y buasai y person i'r hwn yr oedd yn cael ei chadw yn dyfod i gyflawn oed. Ond bu y dyn ieuanc hwnw farw ymhen ychydig amser wedi i Mr. L. gâel ei sefydlu yno, o ganlyniad cafodd ei rhoddi iddo ef yn ddiamodol, cyhyd ag y buasai yn dewis. Ond ni fu yn gweinidogaethu yno dros dair blynedd, os cymaint; ac yn y flwyddyn 1759 rhoddodd hi i fynu i ganlyn dyn o'r enw Dr. Dawney yn yr un swydd yn Piddletown yn Dorsetshire. Bu yn gweinidogaethu yn Piddletown, gyda llawer iawn o gymeradwyaeth, dros saith mlynedd; a thra yr oedd yno ymunodd mewn priodas â Miss Hannah Elsworth, yr hon oedd, yn ol pob hanes, yn foneddiges dalentog, mwynaidd, a chariadlawn; a bu hi mor llafurus ag yntau er llesâd eu plwyfolion: yr oeddynt, mewn gair, yn myned yn y blaen llaw yn llaw yn eu hymdrechiadau ac yn eu hymchwiliadau am y gwirionedd, ac yn cynorthwyo y naill y llall ymhob rhyw ystyr. Ond gan nad wyf yn bwriadu sylwi gyda manylrwydd ar y rhan hon o hanes bywyd Lindsey, cawn fyned rhag ein blaen.

Tra y bu yn byw yn Piddletown y darfu iddo gyntaf gael ei aflonyddu yn ei feddwl ynghylch pa un ai oedd yr Ysgrythyrau yn awgrymu unrhyw beth ai peidio ynghylch y Drindod; a pha un ai oedd yn gymwys ai peidio iddo aros a gweinidogaethu yn yr Eglwys Sefydledig. Yr oedd rhywbeth yn ei feddwl treiddgar ag oedd yn barod i amheu ac i anghymeradwyo y "namyn un deuzain erthygl:" ac hyd y nod pan yn y Coleg yr oedd yn eu hystyried yn bethau afreidiol ac yn bethau hefyd oeddynt yn tueddu i ddyrysu y meddwl yn hytrach na'i oleuo. Ond i arferyd ei eiriau ef ei hun, y rhai sydd yn debyg, beth bynag, i'r byn a ganlyn:—"Nid oeddwn mewn petrusdod mawr, ac nid oedd fy meddwl yn anesmwyth yn herwydd hyny, gan nad oeddwn hyd hyny wedi amheu, neu yn hytrach nid oeddwn wedi meddwl na chwilio i mewn mewn perthynas i'r Drindod, oblegid yr oeddwn yn cymeryd yn ganiatäol fod pob peth yn iawn ynghylch hyny o beth."

Ymhen ychydig o flynyddau wedi hyny darfu i lawer o amheuon godi yn ei feddwl yn nghylch gwirionedd yr athrawiaeth, yr hyn a'i cymhellodd i astudio yr Ysgrythyrau gyda phwyll a difrifoldeb neillduol, er sefydlu ei farn ac er ymryddhau ei hun o gyflwr amheus, tywyll, ac aneglur, ar gwestiwn o gymaint pwys. Ac yn awr cawn osod allan y canlyniad o'i ymchwiliadau manol a difrifol yn ei eiriau ef ei hun, y rhai sydd i'w gweled yn ei *apology*, tudalen 218, sef: "Pa fwyaf y chwiliais drosof fy hun, mwyaf eglur y gwelais ac y cefais allan nad oes un sail i'r athrawiaeth boblogaidd, yr hon sydd gymhlethedig â holl ddefosiynau yr Eglwys, ac nis gallaswn lai na gofidio pan gefais allan nad oedd fy syniadau newydd yn gweddu i mi aros yn y sefyllfa oeddwn ynddi; oblegid yn y diwedd cefais fy llwyr argyhoeddi (i arferyd geiriau pendant yr Apostol Paul) 'nad oes ond un Duw,' ac mai efe yn unig ddylasai gael ei addoli. Ymddengys mai hyn yw y iaith bendant a'r arferiad sydd yn cael ei erchi yn y Bibl; a chefais allan fod syniadau ac arferiad y Cristnogion yn oesoedd boreuaf a gorau y byd oll yn cydgordio â'r athrawiaeth hon."

Tra yr oedd yn gweinidogaethu yn Piddletown cafodd gynnygiadau i fyned i fanau ereill, dan nawdd rhai o brif gymeriadau yr oes; ond nid oedd yn gofalu ond y peth nesaf i ddim am lefydd o'r fath: ar yr un pryd ymddengys ei fod yn awyddus i symud i ryw fan lle y gallasai fwynhau cymdeithas cyfeillion gwresog a mynwesol; a chafodd ei ddymuniad yn hyny o beth cyn pen llawer o amser wedi marwolaeth y Parch. Jeremiah Harrison, yn mis Gorphenaf, yn y flwyddyn 1763. Bu yn gweinidogaethu yn Catterick am ddeng mlynedd, gan dreulio ei amser i ddedwyddoli ei blwyfolion, trwy roddi bara i'r newynog, dillad i'r noeth, a meddyginiaeth i'r claf: ac yr oedd Mrs. L. yn un ag ef yn ei holl ymdrechion. A thra yr oedd yn ymddwyn yn y dull uchod tuag at ei blwyfolion, yr oedd yn treulio ei amser hamddenol mewn ddarllen a myfyrio er cael golwg mwy eglur ar y pynciau hyny oeddent wedi ymgynnyg i'w feddwl.

Ond y mae rhai o bosibl yn barod i ddweud nad oedd yn ddyn gonest, oblegid pe buasai felly ni fuasai er dim yn para i weinidogaethu yn yr Eglwys Sefydledig, a darllen ei llithiau a'i gweddïau, ac adrodd ei herthyglau yn achlysurol. Ar bwys hyn yna gallwn ddweud ei fod yn rhwyddach gwaith o lawer i gael allan feiau nag i'w diwygio: a chyn rhoddi atteb i'r cyhuddiad uchod, yr hyn gawn roddi yn ei eiriau ef ei hunan, ar achlysur dyfodol, cawn sylwi yn fyr ar yr hyn ddywedodd wrth ei eglwys yn ei bregeth ymadawol, sef: "Yr wyf wedi ymdrechu dysgu yr un gwirioneddau i chwi

a ddysgodd ein Harglwydd Iesu Grist ei hun, mor belled ag wyf wedi bod yn alluog i'w cael allan trwy ymchwiliad manwl, diduedd, a difrifol, o'r Ysgrythyrau. Ac yr wyf wedi eich atgofio lawer o weithiau, na ddylech gredu unrhyw beth yn fwy na'i gilydd yn herwydd fy mod i yn ei ddweud a'i osod allan; eithr yr wyf wedi gorchymyn i chwi i chwilio a chydmaru un peth a'r llall, a barnu drosoch eich hunain, er cael gweled a deall pa mor gyson oedd yr hyn a ddywedais â'r Ysgrythyr Santaidd."

Yr oedd yn dweud yn aml wrth ei wrandawyr, nad oedd crefydd bur a dihalogedig yn gynwysedig mewn ymddangosiadau allanol, eithr mewn cariad ac ewyllys da, a byw yn onest, gan dalu diolch i Gyfranwr pob rhodd ddaionus a phob dawn berffaith am ei drugareddau; ond yn fwyaf ac uwchlaw pob peth am ei gariad annhreithol tuag attom yn danfon ei Fab i'r byd, trwy yr hwn y mae yn galw ar bawb yn ddiwahan i'r dragwyddol deyrnas. Yr oedd hefyd yn dirgymell y ddyledswydd o weddi deuluaidd, trwy ddweud y dylasai pob teulu wneud i fynu eglwys fechan, ac addysgu eu gilydd mewn pethau perthynol i Dduw, ac i gyduno â'u gilydd unwaith, beth bynag, bob dydd i alw ar enw yr Arglwydd. Yr oedd yn ystyried yr arferiad hyn yn tueddu mewn modd neillduol i wneud eu teuluoedd yn fwy dedwydd a chysurus, ac yn foddion i attal yr ieuenctyd rhag ymollwng i wneuthur drwg: gallwn ninau ddweud nas gwyddom am ffordd well i ddwyn dynion i fynu yn ddynion geirwir a da ac yn ofn Duw'r Nefoedd. Yr oedd bob amser yn astudio sut y gallasai wneud daioni i'r cyfryw hyny oeddynt dan ei ofal yn dymhorol ac yn ysprydol; ac i'r diben hyny darfu iddo ef a'i briod ffyddlawn gyduno yn eu golygiadau, a phenderfynasant wneuthur eu gorau yn y cylch oeddynt yn troi ynddo.

Pan byddai ef wedi treulio ei holl nerth braidd ar brydnawn y Sabboth, trwy addysgu ac hyfforddi ereill, yr oedd yn edrych yn llon a bywiog fel pe buasai yn barod i waith y diwrnod canlynol wedi hyny. Cerddai, medd un foneddiges enwog, ar draws ei ystafell, wedi dibenu ei waith arferol, gan siarad ar rhai prydiau am harddwch y greadigaeth; ar brydiau ereill dywedai fod daioni Duw yn amlwg ymhob rhan o'r greadigaeth; ac ar brydiau ereill llefarai am esiampl berffaith yr Iesu; ac am wroldeb a phenderfyniadau da y merthyron, y rhai oeddynt wedi myned i ffordd yr holl ddaear. A phan yn siarad am y cyfryw yr oedd ei deimladau yn bywhau ac yn cynhyrfu nes torri allan gan ddywedyd, "*Pryd y daw* yr amser oddiamgylch pan y bydd yr holl hil ddynol yn rhinweddol ac yn ddedwydd, i garu eu gilydd, ac i ddangos yr un ffyddlondeb o blaid y gwirionedd a'r gwroniaid hynny!"

(I'w barhau.)

CHWEDLAU DOETHINEB.

1. Gwell, yn y ddyledswydd o weddi, yw'r galon heb eiriau, na geiriau heb galon.
2. Y mae y rhai sy'n dyfod at bregethiad y gair yn llawnion yn myned ymaith yn weigion, a'r rhai sydd yn dyfod yn weigion yn myned ymaith yn llawnion.
3. Meddwl byr a bair hir ofal.
4. Ni ddylai gwr ganmol ei weithredoedd, ond gweithredoedd gwr a ddylent ei ganmol ef.
5. Y *mae* rhith duwioldeb heb ei grym: ond nid oes grym duwioldeb heb ei rhith.
6. Fe ddylai Cristion ymddangos ei fod fel y mae: a *bod* fel y mae'n ymddangos.
7. Nid yw pob gwr goludog yn dduwiol; ond y mae pob gwr duwiol yn oludog.
8. Pleser byr a bair hir alaeth.

GOFYNIADAU.

Darllened carwr y gwirionedd y gofyniadau canlynol yn bwyllog ac yn ystyriol, a ffurfied attebion iddynt ei hunan:—

Os yw Duw yn casâu pechadur, a ydyw'r pechadur yn gwneuthur peth nad yw yn iawn wrth ei gasâu yntau?

Os yw pob dyn *yn cyfiawn haeddu* cospedigaeth tragywyddol, oni fydd y rhai hynny fyddo yn gadwedig yn cael eu cadw *yn anghyfiawn?*

Pe buasai gennych chwi ddigon o allu, a fuasech chwi yn gwaredu pob dyn oddiwrth bechod?

A ydych chwi yn fwy trugarog na'r Duw a'ch gwnaeth chwi?

A ydyw pob dyn dan rwymau i fod yn ddiolchgar am ei fodoliaeth?

A all rhywun fod yn ddiolchgar am beth, nad yw, ar y cyfan, yn fendith?

Os caiff rhywun ei wneuthur yn dragywyddol druenus, a fydd hwnnw etto dan rwymau i fod yn ddiolchgar i Dduw am ei fodoliaeth?

Os yw Duw yn gweled y diwedd o'r dechreuad, a all tynged terfynol *(final destiny)* dynolryw fod yn groes i'w ewyllys Ef?

A all Duw ewyllysio rhywbeth fyddo yn groes i'w wybodaeth?

A wyddai Duw wrth greu dyn y byddai rhan o'i greaduriaid yn dragywyddol druenus?

Os oedd Duw yn gwybod wrth greu dyn y buasai rhai yn dragywyddol yn druenus, onid oedd efe yn *ewyllysio* i'w tynged fod felly?

Os oedd Duw yn ewyllysio tragywyddol drueni rhan o'i greaduriaid, paham y dywedir ei fod Ef yn ewyllysio fod pob dyn yn gadwedig? 1 Tim. ii. 4.

Pe buasai yr Ysgrythyr yn tystiolaethu fod Duw yn ewyllysio i bob dyn gael ei ddamnio, a allem ni gasglu yn ddiogel y buasai *rhai* yn gadwedig?

Gan fod yr Ysgrythyrau yn tystiolaethu fod Duw yn ewyllysio fod pob dyn yn gadwedig, a allwn ni gasglu yn ddiogel y caiff rhai eu damnio am byth?

Os gwnaeth Duw Uffern dragywyddol, a oedd hwnnw yn gynnwysedig yn yr hyn y dywedodd mai *da iawn ydoedd?* Gen. i. 31.

Os "yr ydym ni yn ei garu ef am iddo ef yn gyntaf ein caru ni," ai gwir yw, fod yn rhaid i ni ei garu *Ef* cyn ei fod ef yn ein caru ni? Ioan iv. 19.

Os "yr ydym ni yn caru Duw am iddo ef yn gyntaf ein caru ni," onid yw yn amlwg ei fod ef wedi ein caru ni pan nad oeddem ni yn ei garu *Ef?*

Os carodd Duw ni pan nad oeddem ni yn ei garu *Ef*, onid *effaith* (ac nid *achos*) ei gariad ef attom ni yw ein cariad ni atto ef?

Os yw Duw yn anfon yr Yspryd Glân i droi pechaduriaid, ai bai y pechadur yw, nad yw wedi ei ymweled ganddo?

Os yw yr Yspryd Glân wedi ei anfon i droi pechaduriaid, a'r pechaduriaid eto heb eu troi, ai bai y pechadur yw, ai ynte diffyg effeithioldeb yn yr Yspryd?

A ydyw pob pechadur yn cael, ac a gaiff pob pechadur yr un siawns am gadwedigaeth? A all y bai fod arnynt hwy, os na fyddant yn gadwedig, yn gymmaint a bod eu siawns hwy yn ymddibynu yn gyfangwbl ar ras Duw?

Pa reswm sydd y caiff un pechadur ei gadw yn fwy na'r llall? A ddywedwch chwi, oherwydd nad ydynt yn edifarhau ac yn credu? Onid ydym ni oll yn bechaduriaid, ac a ellir dim dywedyd am bawb sydd wedi troi, eu bod unwaith yn pallu edifarhau? 'Nawr, os gellir rhoddi rhyw reswm paham y mae un pechadur yn edifarhau, profa'r un reswm yr edifarhäa pawb.

Pa un, debygech, fyddai fwyaf i anrhydedd a gogoniant Duw, santeiddrwydd terfynol *y byd*, ai ynte santeiddrwydd *rhan* a diraddiad annhraethadwy y lleill?

Dywedir am Dduw, fod ei waith "yn berffaith." Nis gellit dywedyd hyny, oni bai fod tynged terfynol dyn mor wybyddus i Dduw cyn ag wedi crëad dyn. Gannad beth ydyw bwriad Duw am danom ni, y mae yn sicr, yn gymmaint a'i fod yn berffaith, nad oes dim eill rwystro ei gyflawniad.

NERTH CARIAD.

Pan yr aeth William Penn tua'r Amerig, aeth yno heb un dryll na chleddyf. Arfogodd ei hun â gwirionedd a chariad, ac aeth i gyfarfod â'r Indiaid. Prynodd eu tir, a thalodd iddynt am dano. Gwnaeth gytundeb â hwynt, ac fe gadwodd wrth y cytundeb. Ymddygodd tuag attynt bob amser fel dynion. Rhoddwn yr esiampl canlynol o'r modd yr oedd efe yn arfer ymddwyn tuag at yr Indiaid. Yn y flwyddyn 1698, yr oedd ar Penn chwant ychwanegu at y tippyn tir oedd ganddo eisoes, ddernyn rhagorol yn y gymmydogaeth, am hyny aeth at yr Indiaid, a dywedodd wrthynt fod arno chwant y tippyn tir hyny, os buasent yn ei werthu. Yr ateb a gafodd oedd, nad oedd arnynt ddim chwant gwerthu y tiroedd lle'r oedd eu teidiau wedi eu claddu, ond "i foddloni eu tad Onas," fel yr oeddent yn arfer galw Penn, dywedasant y cawsai efe ran o'r tiroedd. Wedi penderfynu hyn, cyflawnwyd y fargen, fod i Penn i gael cymaint o dir a allasai dyn ieuanc gerdded oddiamgylch iddo mewn diwrnod, "gan ddechreu wrth yr afon Cosquanco (Kensington yn awr) a therfynu wrth yr afon fawr Kallapingo (Bristol yn awr)," ac yn dâl yr oeddent hwy i dderbyn ryw gymaint o nwyfau Seisnig. Er mae eu dewisiad hwy oedd mesur y tir yn y modd yma, etto nid oeddent yn foddlon wedi iddo gael ei wneuthur; oblegid, meddent, yr oedd y dyn ieuanc a ddewiswyd yn cerdded mor gyflym ac mor bell, fel yr oeddent hwy yn cael eu synu a'u siomi yn fawr. Gwelodd y llywiawdwr eu bod yn anfoddlon, a gofynodd yr achos.

"Y mae'r cerddwr wedi ein twyllo," meddai'r Indiaid.

"Beth! sut y gall hyny fod?" meddai Penn, "canys chwi eich hunain a ddewisodd i'r tir gael ei fesur yn y modd yma."

"Gwir!" meddai'r Indiaid; "ond y mae'r brawd gwyn yn cymeryd wâc fawr."

Dechreuodd rhai o gyfeillion Penn dwymno, a dywedyd fod y fargen yn fargen deg, ac y dylasai yr Indiaid gadw atti, ac os na, y dylasent gael eu gorfodi i hyny.

"Gorfodi!" meddai Penn gyda rhyfeddod. "Pa fodd y *gellwch* eu *gorfodi* heb dywallt gwaed? A ydych chwi ddim yn gweled mai mwrddra fuasai hyny?" Yna, gan droi at yr Indiaid gyda gwên hynaws, dywedodd, "Wel, frodyr, os ydych wedi rhoddi gormod o dir i mi am y nwyfau a gytunwyd am danynt ar y cyntaf, pa faint yn ychwaneg a'ch boddlona?"

Yr oeddent yn lleicio y cynygiad hwn, a dywedasant faint o frethyn a pha faint o fachau pysgotta fuasai yn eu boddloni. Rhoddwyd y rhai hyn yn llawen, ac wedi siglo dwylaw â Phenn, aeth yr Indiaid ymaith dan wenu. Wedi iddynt fyned ymaith, trodd y llywiawdydd oddiamgylch at ei gyfeillion, a dywedodd, "O melused a rhatted peth yw cariad! Yr oedd rhai o honoch gyneu fach yn siarad am orfodi y creaduriaid gwael hyn i gadw at eu bargen, hyny yw, mewn iaith blaen, i'w hymladd a'u lladd hwynt, a hyny i gyd ddim ond am *damaid bach o dir*."

Am yr ymddygiad caruaidd yma, yr hwn a ddangosodd Penn yn ei holl gyfrinach â'r Indiaid, cafodd ei wobrwyo yn ogoneddus. Daeth anwar-ddyn y goedwig yn gyfaill gwresocaf y dicithr gwyn,—tuag at Penn a'i ganlynwyr claddasant y fwyall-rhyfel, a dangosasant bob amser y parch mwyaf tuag attynt. A phan y bu wedi hyny yn dŷn iawn ar drefedigion Pennsylvania am ymborth, a phan nas gallesit cael dim o'r *settlements* cymmydogaethol, oherwydd y prinder mawr a gyfododd o achos fod nifer y trigolion wedi cynnyddu cymmaint fel nad oedd digon o amser i godi y llunaeth oedd yn angenrheidiol—daeth yr Indiaid ymlaen yn llawen, a rhoddasant i'r trefedigion ffrwyth eu llafur wrth bela. Ac er fod Penn wedi marw er ys amser bellach, etto mi ydyw'r dynion cochion wedi ei anghofio; oblegid y mae llawer o'r Indiaid yn gwybod am ei dymher a'i duedd heddychlon, ac yn llefaru am dano gyda llais a theimladau gwahanol iawn i'r hyn y maent yn ddangos pan y maent yn siarad am y gwynion hyny a ddaeth attynt â geiriau brâd ar eu tafodau, llestri o "ddwr-tân" yn eu dwylaw, a gormes yn eu gweithredoedd.

Shalom.

BU FARW YN DLAWD.

"ANGLADD galarus oedd i mi," meddai'r llefarydd, "y mwyaf galarus a fuais i ynddo er ys blynyddau."

"Angladd Edmondson?"

"Ië."

"Pa fodd y bu farw?"

"Yn dlawd, mor dlawd a thlodi—ymdrechodd yn hir â'r byd yn erbyn pob anfantais. Yr oedd ffortun o hyd yn ei foceian ag addewidion auraidd, y rhai nid oeddent wedi eu tynghedi i wel'd cyflawniad."

"Ac etto yr oedd yn amyneddgar iawn," meddai un o'r cwmni.

"Yn amyneddgar fel Cristion," oedd yr atteb. "Druan, yr oedd yn deilwng o dynged gwell. Dylasai fod wedi llwyddo oherwydd yr oedd yn teilyngu llwyddiant."

"A ddarfu iddo ddim llwyddo," gofynai un ag oedd wedi siarad am ei amynedd a'i ddyfalbarhad.

"Na ddo, syr, bu farw yn dlawd, fel y dywedais eisoes. Ni lwyddodd dim a osododd efe ei law wrtho erioed. Yr oedd fel pe byddai rhyw fath o dynghedfen yn dilyn pob ymdrech iddo."

"Yr oeddwn i gydag ef yn ei funudau olaf," meddai'r llall, "ac yr oeddwn i yn meddwl iddo farw yn gyfoethog."

"Na, ni adawodd efe ddim ar ei ol," oedd yr atteb. "Ni fydd yr etifeddion yn gofalu ynghylch gweinyddiad y stât."

"Gadawodd enw da ar ei ol," meddai un, "mae hynny yn rhywbeth."

"A *legacy* o weithredoedd gogoneddus, y rhai a wnaethpwyd i ddynolryw," meddai un arall.

"Gwersi o amynedd mewn dioddefiadau; o obaith mewn adfyd; o ymddiried nefol pan nad oedd dim o belydrau yr haul yn syrthio ar ei lwybr dyrysiyd," oedd tystiolaeth un arall: "a hyder cryf, dewrdra gwrol, a chalondid gwronaidd."

"Yna bu farw yn gyfoethog!" oedd yr haeriad! "yn gyfoethocach na'r *millionaire*, yr hwn a aeth i dŷ ei hir gartref yn un dydd, yr hwn oedd ddyn tlawd ymhob peth ond aur." Angladd galarus, ddywedasoch? Na, gyfaill, gorymdaith gorfoleddus yn hytrach ydoedd! Nid cladddedigaeth tywarchen ddynol, ond cydymdaith seremoniol a symmudiad angel. Ni lwyddodd! Beth? onid oedd ei holl fywyd yn un rhes o lwyddiant? Ymhob ymdrech daeth ymmaith yn orchfygwr, ac yn awr y mae coron y gorchfygwr ar ei ben. Gall undyn crafanellyd, dienaid, hunanol, gasglu arian a dysgu'r gelfyddyd o'i gadw; ond nid oes dim un o bob cant a all orchfygu yn wrol ym mrwydr bywyd fel y gorchfygodd Edmondson, a symmud allan o rhengoedd dyn yn wron Gristionogol. Na, na; ni fu efe farw yn dlawd, ond yn gyfoethog, yn gyfoethog mewn serchiadau nefolaidd. Ac y mae gan ei etifeddion clw yng ngweinyddiad ei stâd. Y mae perchenogaeth helaeth wedi ei adael ar ol, a bydded iddynt hwy ochelyd na chollant y pethau gwerthfawr trwy wneuthur cam brisiad a bychandod ffol.

CYFD. Z.

UNDODIAETH PEL Y MAE YN CAEL EI GWELED GAN WRTHWYNEBYDD.

Y MAE Undodiaeth yn sefyll yn uwchaf ar ysgol rheswm. Y mae yn neillduol yn ffurf *resymol* o grefydd. Beth all fod yn fwy gwrthun i ddyn meddylgar a dysgedig nag athrawiaeth y Drindod,—tragywyddol genhedliad y Mab,—personoliaeth yr Yspryd Glân,—iawn Mab Duw,—Duw yn ymddangos yn y cnawd,—bodoliaeth Satan, &c. Pe byddai chwi a minnau yn ymgynghori â'n rheswm, ac yn gwneud ein penderfyniad yn ol y dystiolaeth, yr wyf yn sier y buasem i gyd yn Undodiaid. Nid wyf fi yn gallu gweled sut y gall "dyn naturiol" fod yn ddim arall ond Undodwr; a rhagor na hynny, yr wyf yn credu fod mwy o Undodiaid yn ein eglwysi nag yr ydym ni yn meddwl. Ffolineb yw dywedyd fod y gredo hon yn marw.—*Allan o Brezeth gan Offeiriad Calfinistaidd, y Parch. W. Parker, Incumbent Openshaw, Manchester.*

YR "ESSAYS AND REVIEWS."

Rhif. III.

Ymchwiliadau Biblaidd Bunsen *(Bunsen's Biblical Researches)* yw testun yr ail o'r Traethodau hynod.

Math o adolygiad ydyw gan ein cydwladwr Dr. Rowland Williams o Lanbedr. Ac oddieithr traethawd Mr. Jowett ar "Ddeongliad yr Ysgrythyr," i'n tyb ni, dyma'r mwyaf pwysig a'r mwyaf diddorol o'r saith. A dichon mai dyma'r un a roddes fwyaf o dramgwydd hefyd yn nesaf at sylwadau annedwydd Mr. Baden Powell ar y Gwyrthiau mewn *cyssylltiad â'r Profion o wirionedd Cristnogrwydd.*

Diau fod sylwadau ein Traethodydd dysgedig ar weithiau Bunsen yn fwy tramgwyddus i lawer o herwydd eu bod mor darawiadol; fel yn sier y maent, ac yn addysgiadol hefyd a defnyddiol mor belled ag y tueddant i arwain meddyliau ymofyngar i chwilio yn ddwys ac yn mhellach i'r peth. Ond nid oes dim ynddynt braidd ag sy'n neilltuol newydd i fyfyrwyr Beiblaidd, oddieithr yn wir i ddechreuwyr ieuainc. Ac yn ngwyneb yr wbwb fawr sydd wedi bod o'u hachos, a'r cyhuddiad o anffideliaeth, nid yw ond cyfiawnder i sylwi fod Bunsen a'i adolygydd, trwy'r cyfan, yn proffesu ac yn dangos parch trwyadl i'r Beibl ac i wir grefydd. Nid hwynt-hwy sydd wedi crëu yr anhawsderau perthynol i hanesiaeth yr Hen Destament, ac nid hwy yn gyntaf a ddangosodd y gwallau mewn amseryddiaeth a gyfarfyddir â hwynt yn yr hanes foreuol. Yr oedd eraill wedi eu nodi o'u blaen: a gadael yn awr fod y cyfryw wallau ac anhawsderau yn bodoli, yr hyn yn wir ni ellid ei ddisgwyl lawer yn llai dan yr amgylchiadau, ac nid y'm yn appelio at y rhagfarnllyd, eithr yn unig at garwyr gwirionedd, ai drwg neu ynte canmoladwy yw ymdrech i gyssoni y cyfryw ddiffygion ac anhawsderau à *gwir* werth a theilyngdod hanes yr Hen Destament? Onid gwell cael sylfaen ar y graig nag ar y tywod sigledig?

Mor belled a hyn teimlwn yn gryf gyda Bunsen a'i adolygydd; ond nid oes genym ddim i'w wneud â rhagfarn gwlad ar y pwnc nag ychwaith â threfnau a rheolau eglwysi sefydledig neu ansefydledig. At y gwir fyddo ein cais bob amser, a dim ond y gwir. A bydded rhwng y Traethodwyr a'r Eglwys y perthynant iddi, ar y cwestiwn o'u troseddiad ar reolau dysgyblaeth y cydymffurfiad. Mae yn deg ddigon i'r awdurdodau eglwysig gael amddiffyn eu cyfundraeth grefyddol yn y fath amgylchiad. O'r tu arall, nid oes gan yr amheuwyr neu ddiwygwyr, yn ol fel y'u cymmerer, ddim lle i achwyn ar gaethiwed cydwybod, pan y mae drws y sefydliad yn ddigon eang ac yn agored iddynt ddyfod allan os ewyllysiant; a rhyddid i'r neb a faeddia, i offrymu aberth costfawr ond dyledus ar allor crefydd a chydwybod dda. Er dichon y barna rhai, oddiwrth y derbyniad helaeth digyffelyb braidd ag sydd wedi ac yn cael ei roddi i'r *Essays and Reviews*, fod lle i gasglu bod plaid o fewn yr eglwys ei hun, ac yn y wlad, sydd dros ganiattau mesur cryn helaeth o ryddid barn a llafar ynghylch pynciau crefydd mewn cyssylltiad â'r sefydliad gwladol. Nid y'm ni ar fedr myned i "farnu gwas un arall;" ond yr y'm yn credu fod y fath ymchwiliadau ag eiddo Bunsen a Williams, o'u dilyn gyda phwyll a difrifoldeb yn sier, yn y pendraw, o fod yn ffafriol i achos gwirionedd a chrefydd, a hyny er ychwanegu at ein gwir barch i'r Beibl.

Ond gofynir, feallai, pwy a pheth yw y Bunsen yma, a beth yw ei "Ymchwiliadau Beiblaidd," fel ag i deilyngu bod yn destun y fath Draethawd ag a gynnyrchwyd gan Dr. Williams? Tystia Dr. W. barch neillduol i ddysg a galluoedd ei awdwr; a hyny gyda mesur o gydymdeimlad neillduol, yr hyn a gyfodai yn naturiol oddiar eu bod wedi llafurio yn yr un maes o ymchwiliad, ac wedi cyfarfod â'r un neu gyffelyb erledigaeth. Ac heblaw hyn, yr oedd y Barwn Bunsen megys yn ymgorpholi y golygiadau Beiblaidd hyny ag sydd mewn mwyaf o gymmeradwyaeth gyda dysgedigion Germany.

Yn ystod y blynyddau y bu y Barwn yn trigo yn Llundain, ac yn cyflawni'r swydd o Gennadwr oddiwrth Frenin Prwssia, cyrhaeddasai gymmeradwyaeth uchel fel doethawr, llenor, a gwleidiadydd. Ond tebyg fod ei enw yn fwy adnabyddus i lawer o'n darllenwyr mewn cyssylltiad ag Esteddfod y Fenni. Yr oedd wedi ymbriodi i deulu Llanofer, ac fel y gallesid ei ddysgwyl oddiwrth y cyssylltiad, yr oedd yn dwyn mawr zel dros lenyddiaeth ein cenedl. Fel Protestant hefyd, ac aelod o'r Eglwys Lutheraidd, ac heb un amser guddio ei grefyddoldeb, gwnawd llawer o hono gan grefyddwyr poblogaidd Lloegr. Ond maes o law, pan gafwyd allan nad oedd ei olygiadau yn uniongred, dechreuwyd edrych arno gydag oerfelgarwch, ac wedi ymddangosiad ei weithiau diweddaf, darfu yr *Evangelical Alliance* weled yn gymmwys i'w ddiarddel yn gyhoeddus.

Wedi iddo roddi i fynu ei gennadwraeth, darfu Bunsen ymroddi yn hollol i ymchwiliadau hanesyddol a beiblaidd. Ysgrifenodd "Duw (fel y dengys ei hun) mewn Hanesyddiaeth;" "Yr Aipht—ei lle mewn Hanesyddiaeth;" "*Hypolytus*," neu Gristionogrwydd yn y 3edd Canrif; a "Bibl i'r Bobl Cyffredin"—yn cynnwys cyfieithiad newydd (nid allodd fyned trwy yr oll o'r Hen Destament) ynghyd â sylwadau rhagarweiniol, beirniadol, ac eglurhäol. Bu yn llafurus ac yn selog gyda'r gwaith hwn hyd ŷ diwedd. Yr oedd yn fyw ac yn myned ymlaen a'r gwaith pan ymddangosodd adolygiad Dr. Williams. Ond cyn diwedd y flwyddyn ddiweddaf, a chyn y twrw mawr, yr oedd Barwn Bunsen wedi canu yn iach i'r fuchedd hon ac i'w holl ddadleuon. Yr oedd gweinidog Protestanaidd, perthynol i'r Eglwys Ddiwygiedig (Calfinaidd), yn bresennol ar ei wely angau, yr hwn a dystiodd i Bunsen farw yn dawel yn y ffydd a broffesai, gan gredu yn Nuw ac yn Nghrist, ac yn addewidion yr Efengyl. Deallwn fod y gweinidog hwnw wedi bod dan gerydd yr *Evangelical Alliance* am ysgrifenu mor ffafriol am farwolaeth y fath *heretic*.

Y peth blaenaf a ddygir dan adolygiad yw barn Bunsen ynghylch amseryddiaeth y rhan foreuol o hanes y Beibl. Golygir fod gwir hanes yr Israeliaid yn dechreu gydag Abraham; fod y cyfran blaenorol (Genesis i—xi) yn gynnwysedig o ddarnau gwerthfawr ac o hen hynafiaeth, ond na roddwyd hyspysrwydd pwy oedd yr awdwr neu yr awdwyr o honynt. Ystyrir fod yr hanes feiblaidd yn cynnwys *elfen ddynol*, ynghyd â'r dadguddiad neu amlygiad o briodoliaethau ac ewyllys y Goruwchaf; ac fel y cyfryw ei bod yn agored i feirniadaeth yr un modd ag hanesion eraill. Y mae Bunsen a'i adolygydd yn sefyll yn gryf dros yr egwyddor fawr o unoliaeth dynolryw, neu fod yr oll o ddynolryw yn disgyn oddiwrth yr un rhieni cyntaf—egwyddor ag sy'n agos iawn at galon gwir grefydd a dyngarwch. Yn awr. er amddiffyn yr egwyddor hon, a chyfrif hefyd am hynafiaeth addefedig llywodraeth yr Aipht (oesoedd lawer cyn Abraham) ac am y cynnydd oedd wedi cymmeryd lle mewn gwareiddiad, a'r amrywiaeth oedd hyd yn oed y pryd hyny wed

cymmeryd lle mewn ieithoedd, bernir ei bod yn ofynol i helaethu yr amseryddiaeth i raddau mawr iawn. Barna Bunsen hefyd ei bod yn ofynol i ychwanegu 14 canrif at arosiad yr Israeliaid yn yr Aipht; ac nad yw y 215 mlynedd soniedig yn yr hanes ddim ond yn arwyddo amser eu *gorthrymiad*. Teimlwyd yr anhawsdra olaf fwy na dwy fil o flynyddau yn ol gan gyfieithwyr y *Deg-a-thrugain*, y rhai oeddent yn preswylio yn yr Aipht. Y mae yr Eglwys Roeg yn derbyn hyn o helaethiad yn yr amseryddiaeth. Ond sylwa Dr. W. yn dda, mai gwall-feirniadaeth ("*uncritical*") fyddai cyffwrdd â'r *text* dilwgr Hebreig *ar y fath sail anawdurdodedig ag eiddo y LXX.*

Bydd y rhai ydynt yn pleidio dros lythyren yr *ysprydoliaeth geiriol*, wrth gwrs, yn ymswyn yn erbyn unrhyw gyffwrdd ag amseryddiaeth yr oesoedd pell yma—gan gauad eu llygaid yn erbyn unrhyw anhawsderau ac anghysondeb a ddangoser eu bod yn nglyn ag ef. Ond teimla y myfyriwr beiblaidd yn wahanol o dan yr amgylchiad. Nid yw yr hanesion boreuol yma yn llai gwerthfawr yn ei olwg ef, o weled eu bod yn dwyn nodau o'u bod wedi disgyn o'r oesoedd pell cyn-hanesiol, ac o'u bod wedi eu hysgrifenu *gan ddynion*, y rhai oeddent yn adrodd y cynnwysiad pwysig yn y modd ag oedd yn naturiol yn eu hamgylchiadau hwy.

Nid ar y cofiriad o dreigliadau amser, na chwestiynau allanol o'r fath y mae gwir werth a buddioldeb hanes yr Hen Destament yn ymddibynu. Ac nid yw ond cyfiawnder i nodi fod Bunsen a'i adolygydd yn barod, gymaint a neb, i gydnabod gwir werth a mawredd crefyddol y fath gymeriadau ag Abraham, Moses, Elias, a Jeremiah. Nis gallwn ymhelaethu. Y mae y cwestiynau perthynol i'r amseryddiaeth yn cael eu trafod gyda llawn gymaint o ddysg a chyda mwy o fanylwch a chyfiawnder gan y Parch. John Kenrick (*An Essay on Primæval History*. London: B. Fellowes, 1846).

Ond cyn gadael y testun, sef effaith y fath ymchwiliadau ag eiddo Bunsen, &c.. er ansefydlu yr amseryddiaeth derbyniedig, rhaid i ni alw sylw at y ffaith bwysig fod hanes yr Exodus, neu fynediad Israel o'r Aipht, yn cael ei gadarnhau ganddynt. Yr oedd anffyddwyr y canrif diweddaf yn arfer siarad am yr Exodus gyda gwawd fel rhyw chwedl ddisail; ond yn awr, mewn canlyniad i'r darganfyddiadau a wnaed gan Lepsius ac eraill, yn y palasau claddedigaethol tanddaearol a adeiladesid gan hen frenhinoedd yr Aipht—mewn cofnodiadau cerfiedig ar y graig—y mae y digwyddiad pwysig hwnw—pwnc sylfaenol y grefydd Iuddewig—wedi cael ei ddwyn allan i'r golwg tu hwnt i bob amheuaeth; ac yn awr saif ger bron y byd yn ffaith anwadadwy. Yn y cerfluniau sydd etto yn aros o'r caethweision a'u gorthrymwyr gyda gwaith y priddfeini, hawdd yw adnabod a gwahaniacthu plant Abraham, pan oeddent yn "nhŷ y caethiwed." Yn unol a'r cofnodiadau Aiphtaidd, a thebygolrwydd y peth, gosodir y mynediad allan o'r Aipht mor ddiweddar a'r flwyddyn 1323 neu 1314 Cyn Crist; yr hyn, modd bynag, a arweinia i anhawsdra newydd, trwy adael i ni ddim ond tri chanrif rhwng yr Exodus a theml Solomon.

Yr oeddym wedi dysgu fod y Testament Newydd yn rhagori ar yr hen mewn llawer o bethau; fel nad oeddem yn disgwyl cael perffeithrwydd Efangylaidd yn yr Hen Destament. Dywedodd Crist hefyd am rai trefniadau a gorchymynion, iddynt gael eu rhoddi, neu eu caniattau i'r hynafiaid "oherwydd eu calongaledwch hwy." Gyda rheswm y sylwa Dr. W. y buasai Moses yn rhoddi cyfraith llai ffurfiol a seremoniol a mwy ysprydol i'r Israeliaid pe buasent yn alluog i'w derbyn; a rhaid addef nas gall Cristion,

gyda chysondeb, gyduno yn yr oll o'r gweddiau neu ddymuniadau a osodir allan yn rhai o'r Salmau.

Ond natur a helaethrwydd proffwydoliaeth Hebreig, yw y pwnc mwyaf pwysig feallai a drafodir yn y traethawd dan sylw. I'n deall ni, ymddengys golygiadau Bunsen ac eiddo ei adolygydd, ar natur a swydd "yr ysbryd proffwydoliaethol," yn bur aneglur a niwlog. Ond dygant ymlaen resymau ag sydd o leiaf yn teilyngu cael eu hystyried, dros fod y rhan fwyaf, os nid yr oll o'r proffwydoliaethau a gymmerir yn gyffredin eu bod yn cyfeirio yn uniongyrchol at y Messia, wedi cael eu cyflawniad yn yr oes y llefarwyd hwynt: hefyd, dros fod y rhan olaf o Lyfr y Prophwyd Esay (o'r 40 ben. hyd y diwedd) yn gyfansoddiad o law prophwyd diweddarach, feallai, *Baruch* cyfaill a disgybl Jeremiah: ac mai yr un yw "gwas yr Arglwydd" yn Pen. lii. a liii., neu ei fod yn dwyn perthynas á'r gwas yn pen. xlii. a xlix: dan arweiniad Grotius cesglir mai naill ai y Prophwyd Jeremiah ydoedd, neu ynte "gweddill ffyddlon yr Israel." Sylwir fod y rhai ydynt yn ddiweddar wedi ysgrifenu ar y Profion o wirionedd Cristnogrwydd, wedi rhoddi i fynu, mwy neu lai, y prawf oddiwrth y cyflawniad o broffwydoliaeth. Ond gwrandawer ar Dr. W. :—

"Os yn awr y gofyna rhyw Gristion gwirioneddol, onid yw ein Harglwydd yn cael llefaru am dano yn y Prophwyd Esay? agored ei Destament Newydd, a chyda hwnw gofyned i Ioan Fedyddiwr, ai efe oedd Elias? Os y ca fod y Bedyddiwr yn dywedyd *Naga*. ac etto fod ein Harglwydd yn tystio mai efe mewn ystyryd a gall i oedd Elias; ychydig adystyriaeth a ddengys pa fodd y mae y desgrifiad hanesiol yn Esay liii, am ryw broffwyd neu weddill dioddefgar; ond fod y gwirionedd a'r amyaedd, y dolur a'r gorfoledd, yn cael eu cyflawniad uwchaf yn yr Hwn a ddywedodd, 'O Dad, nid fy ewyllys i, ond dy ewyllys di.'"

Cyn gorphen, gadawer etto i adolygydd Bunsen lefaru drosto ei hun ar wirioneddau y Testament Newydd a'r iachawdwriaeth trwy Grist.

"Yr oedd Barwn Bunsen yn cydnabod Crist fel Iachawdwr moesol dynolryw, yr hyn gyda rhai a ddangosai yn fwyaf eglur ei hawl i'r enw Cristion. Er ei fod yn cofleidio geiriadau (*terms*) y Testament Newydd gyda mwy na gwresogrwydd unionged, y mae yn eu hesponio yn y fath fodd, fel y gellir ei gyhuddo o ddefnyddio iaith Efangylaidd mewn ystyr philosophyddol. Ond mewn attebiad gallai ofyn, Pa brawf sydd nad yr ystyr resymol o eiriau St. Paul, oedd yr un a amcanai yr Apostol? Paham nad wrth gyflawnhad trwy ffydd y meddylid tawelwch meddwl neu deimlad o gymmeradwyaeth dwyfol, yr hyn sy'n dyfod oddiwrth ymddried mewn Duw cyflawn yn hytrach na dychymyg o haeddiant trwy gyfrifiad? Byddai St. Paul felly yn dysgu cyfrifoldeb moesol, megys mewn gwthwynebiad i seremoniaeth. Byddai ffydd mewn cyferbyniad, nid i'r gweithredoedd da y mae'r gydwybod yn eu gofyn, eithr i weithredoedd o gymmodiad trwy ddefod offeiriadol. A chyflawnhad, ni fyddai yn sylfaen trawsawdurdodol i hyder, nac yn wobr ar yr anmod o ymwrthod á phob haeddiant, eithr yn hytrach yn ddedryd o faddeuant ar edifeirwch, ac o'n derbyniad gyda Duw ar offrymiad ein calonau.

"Nid yw yn wrthddadl dinystriol i ddywedyd y byddai St. Paul felly yn dysgu Crefydd Naturiol, oddieithr ein bod yn sier ei fod ef yn rhwym i ddywedyd yn groes iddi; ond y mae yn gadarnhad i'r olwg yma, os ydyw yn dwyn ei eiriau celyd ef i gydgordiad á'r Efengylau ac á'r Salmau ac á greddfau ein cydwybod oreu. Pe buasem wedi breuddwydio fod ein perthynasau anwylaf mewn rhyfel annghymodadwy á'n gilydd, ac yn teimlo ing gyda'r meddwl o wrthwynebu y naill neu'r llall, nis byddai yn fwy o esmwythâd i ddihuno a'u cael mewn heddwch, nag y byddai i rai meddyliau i gael fod y gwrthwynebiad rhwng Natur a Dadguddiad yn diflanu gydag helaethach gafael a dyfnach ganfyddiad o'r naill, a thraethiad mwy cyson a phwyllog o'r llall.

"Pe buasai ein doethawr wedi ein perswadio mai peth moesol yw cyfiawnhad, nis ciliai rhag ychwanegu fod Adenedigaeth, yr un modd, yn gynnwysedig mewn rhoddi iawn olwg ar bethau, a deffroad galluoedd yr enaid. Wrth adgyfodiad meddyliai adfywiad ysbrydol. Ac Iechydwriaeth fyddai gwaredigaeth, nid oddiwrth y Duw sydd yn rhoddi bywyd, eithr oddiwrth ddrygioni a thywyllwch, y rhai ydynt y pethau meidrol gwrthwynebol. Cymmod fyddai adferiad o'r heddwch hwnw, nad all fodoli tra mae pechod yn gwahanu rhyngom a Chwiliwr y calonau. Peth sydd yn perthyn i Dduw, fel Yspryd, yw y Tragwyddol, ac am hyny naccâd o bethau meidrol neu anysprydol, pa un ai y byd, ai y llythyren, ai defod waedlyd. Braidd y dichon fod llosgfeydd adgas dyffryn Hinnom (Gehenna) yn cael eu dynwared gan y Duw a'u melldigodd hwynt, ond gallant weinyddu fel darluniau o adgno cydwybod euog. A'r nefoedd, nid lle ydyw gymaint a'r cyflawniad o gariad Duw," &c.

Ond rhaid i ni roddi heibio bellach rhag blino y darllenydd, a chau allan bethau buddiol eraill.

I.

Eglwysiarthau.

HEN-DY-CWRDD, ABERDAR.

At Gynnlleidfaoedd Undodaidd Cymru.

Anwyl Frodyr Cristnogol,—Trwy ganiatad Mr. Gol., dymunaf alw eich sylw mwyaf parchus, fel enwad o Gristnogion yn teimlo dros yr achos daionus ag ydych yn ei broffesu, ac yn dymuno gweled egwyddorion eich proffes yn lledaenu eu hesgyll dros y byd; taer erfyniaf arnoch i glust-ymwrando ar yr hyn a ganlyn:—

Feallai nad ydyw yn hysbys i'r rhan fwyaf o honoch am yr Hen-Dŷ-Cwrdd, Aberdar, pa bryd yr adeiladwyd ef ar y cyntaf. Ymddengys oddiwrth yr arwyddnod sydd arno, taw yn y fl. 1751 y gosodwyd ei sylfeini gyntaf i lawr, ac oddiar hyny hyd yn bresennol y mae'r gwelydd yn sefyll yn eu cyflwr cyntefig, ar eu sylfeini yn safadwy, ac yn herio y gwyntoedd a'r dymestl fwyaf chwerw i'w curo i lawr. Ond beth bynag am hyny y mae yn awr yn galw am *adiwygiad trwyadl*, er atteb anghenion y gynulleidfa gyda golwg ar gynydd y gymydogaeth, ac yn neilltuol mewn cyssylltiad â'r Ysgol Sabbothol a gynelir yn y lle.

Nos Iau, Ebrill 25ain, trwy rybudd blaenorol, ymgyfarfu amryw o'r aelodau, ac ewyllyswyr da eraill hefyd, yn y capel, er ystyried pa lwybr a fyddai fwyaf llwyddianus er dwyn yr amcan oddiamgylch. Penderfynwyd yn unfrydol i dynu yr Hen-Dŷ-Cwrdd i lawr, a'i ailadeiladu yn helaethach, os y ceir cefnogaeth ddigonol. Y mesur a fabwysiadwyd er gofyn nawdd a chynorthwy arianol tuag at y draul yng nglŷn a'r cyfryw achos, oedd rhanu y gymydogaeth yn ddosbarthiadau; a neilltuwyd cyfeillion i fyned oddiamgylch at bawb Undodaid i ofyn eu ewyllys da, ac at eraill a fyddai yn teimlo, a dwyn sel i gadw a chynal i fynu yr achos yn y lle; ac yr ydym yn apelio at holl eglwysi Undodaidd Cymru i ofyn eu cynorthwy yn y mudiad hwn, ac nid yn ofer, hyderwn; canys dylem, fel enwad o Gristnogion, gynorthwyo ein gilydd mewn amcanion o'r fath hyn, heb droseddu y mymryn lleiaf ar feddwl nag amcan neb, ond bod yn barod law a chalon i wneuthur daioni, a chynal i fynu a lledaenu yr egwyddorion ag yr ydym yn ystyried o wir werth i'r byd eu gwybod. "Mewn undeb mae nerth." A bydded i gariad brawdol lewyrchu fwyfwy yn ein plith, ac alltudier pob malais, llid, a chenfigen, o'n mysg, i ebargofiant tragwyddol, fel y byddo'n cynydd yn eglur i bawb.

Teimlir yn wir ddiolchgar i bwy bynag a gyfrano at yr achos; a derbynir eu rhoddion gyda chydnabyddiaeth a diolchgarwch gan ysgrifenydd y llinellau hyn, neu Mr. Jones, gweinidog y lle.

Yr eiddoch, yn y rhwymau goraf,

John Jones (Eiddil Glan Cynon),
No. 35 Heol Harriet,
Trecynon, Aberdar.

Kauesion Cartrefol a Thramor.

Y Senedd a'r Wladwriaeth.—Nid oes dim newydd o bwys wedi cymmeryd lle yn ddiweddar yn y Senedd; ond dygir materion y llywodraeth ymlaen fel arferol ac yn bur hwylus. Y mae ymron yn sicr bellach y bydd i ostyngiad y dreth ar bapur gael passio trwy Dŷ yr Arglwyddi ynghyd â'r trefniadau ariannol eraill cynnwysedig yn y Budget. Mae y sefydliad newydd o *Savings' Banks* trwy offerynoliaeth y *Post Office* wedi dyfod yn gyfraith y tir. Y mae lle i obeithio y trŷ yn gyflëus iawn ac yn fendith i'r dosparth gweithgar. Anhawdd rhagweled, ond y mae lle i ofni y trŷ y rhyfel rhwng y Taleithiau yn America yn niweidiol iawn i fasnach ein gwlad. Er bod y Frenhines wedi cyhoeddi Proclamation i rybuddio a gwahardd pawb o'i deiliaid rhag cymeryd rhan gyda'r naill neu'r llall o'r pleidiau sydd ar fyned i ryfel â'u gilydd, deallwn fod llongau, dan ryw esgus arall, yn cael eu parotoi yn Liverpool, er cyflawni swydd mileinig *privateers* ar y mor.

Cyfarfodydd Blynyddol Undodaidd.—Cynnaliwyd y cyfarfodydd hyn, fel arferol yn Llundain, yn wythnos y Sulgwyn. Buasai yn dda genym allu rhoddi ychydig o'u hanes. Yr oedd nifer mawr o'r brodyr wedi dyfod ynghyd o'r taleithiau, a'r adroddiadau yn ffafriol ac yn obeithiol dros ben.

Newyddiadur Undodaidd newydd.—Ar y 4edd o Fai cyhoeddwyd yr "*Unitarian Herald*"—papyr wythnosol, pris ceiniog.

Esgob Salisbury a Dr. R. Williams.—Ni bydd diwedd yn fuan, mae'n debyg, ar gynhwrf yr "*Essays and Reviews.*" Y mae yr Esgob uchod wedi gwysio Dr. Williams, yr hwn sydd yn dal personiaeth yn ei esgobaeth, i ymddangos yn Llys yr Archesgob yn Llundain, i gymeryd ei dreial am wall ddysgu ("*false teaching*"). Daw y treial ymlaen yn yr Eisteddfod nesaf.

America.—Mae teimladau pob carwr rhyddid yn Nghymru a Lloegr yn ddolurus iawn, wrth feddwl am yr anghydfod enbyd sydd wedi cymeryd lle rhwng ein brodyr yn y taleithiau, y *North* a'r *South*, a'r canlyniadau echryslawn nad ellir hwyach eu gochelyd braidd. Yr oedd yr ugain niwrnod o rybudd a roddasai y President Lincoln yn terfynu ar y 5ed o Fai; ac erbyn hyn odid nad yw y rhyfel wedi tori allan yn ei holl echryslonrwydd. Diau y bydd yr ymdrech yn ofnadwy. Nid oedd y newyddion a gyrhaeddent y wlad hon hyd yn ddiweddar yn hyspysu am ddim braidd ond y darpariadau a wneid gan y ddwy ochr erbyn yr ymdrechfa. Mae brwdfrydedd mawr yn y South, a bernir yn awr y bydd yr holl daleithiau yno oddieithr Delaware a Virginia Orllewinol, yn erbyn yr Undeb. Ond y mae taleithiau'r North yn gryfach o lawer mewn poblogaath, cyfoeth, a gallu rhyfelawl, ac yn benderfynol i adennill yr oll ag sydd eisoes wedi syrthio i law y South. Hyspysir, gan y newyddion diweddaraf, fod y Brif-ddinas, Washington, yn cael ei hystyried mewn perygl oddiwrth terfysgwyr y South. Anfonasid am luoedd i ddyfod yn ddioed i'w hamddiffyn. Hyspysir hefyd fod teuluoedd yn para i gyrhaedd New York, y rhai sydd yn dianc o'r South am eu bywydau. Pa fodd bynag y trŷ yr ymrysonfa yma allan yn y pendraw, mae lle i gasglu mai y diwedd fydd puro y wlad oddiwrth un o'r melldithion gwaethaf a fedd ein daear—caethwasanaeth.

Priodwyd—

Ebrill 18, 1861, yn hen eglwys plwyf Aberdar, gan y Parch. D. Jones, Curate Hirwaun, Mr. Samuel Jones, Grocer, Heol Harriet, â Miss Elizabeth Morgans, pumed merch i'r diweddar Mr. M. Morgans, Ysguborwen—eill dau o'r lle uchod.

Priodas addas iddynt,—hael wenau
Rhagluniaeth fo drostynt,
Er hwyliaw mewn gwir helynt
Bywyd o hedd, hoywedd hynt.

Aberdar. Eiddil Glan Cynon.

Bu Farw—

Mai 15, Gwenllian, merch Dafydd a Sarah Enoch, o Rumni, yn 11eg mis oed. Chwerw iawn a dolurus i deimladau rhieni yw colli eu hanwyliaid. Y fraint gaffom o ymostwng i ewyllys Duw ymhob amgylchiad, gan ystyried mai ei ewyllys Ef sydd orau.

Ei Thad.

Barddoniaeth.

Y GWANWYN.

Tymp ardderchawg y blodeuawg
Wenawg wanwyn,
Sy'n hardd wisgo â gwedd effro
Bob gwiw ddyfiryn.

Dilesg ymdarddu mae'r dolydd—llathraidd,
A holl lethri'r bronydd;
Eu gwyneb oll ar gynydd
Yn ffrwythlon ys weithion sydd.

Chwardd pêr lysiau, gwrida blodau,
A'i eginau tyner gwnant;
Egyr meillion, a'r breiliw brithion;
Y fro hylon a befr huliant.

Caiff y dewfrig wig ddi-ail
Gu harddwisg o deg irddail;
Hefyd, â blodau prydferth,
Gwisgir, e baentir y berth.
Er eu haddas ireiddiaw
Ceir tyner lawnder o wlaw.
A fu un olwg fwynach
I'n bron, na'r bywlon ŵyn bach
O gwmpas yn ymgampiaw,
A hoew drem ar y fron draw!
E wisg y dêg ardal werdd
Hydyfol hudol wên hardd;
"A gwydr destynau mwyn gerdd"
O'i gruddiau diau a dardd.

Gwlad y Saison, CAWR AYRON.
Ebrill 20, 1861.

Y PLENTYN YN CYSGU.

Cyfieithiad o Longfellow.

Mwyn faban, gwir bortreiad
O wyneb hoff dy dad,
Cysg ar y fron a sugnwyd
Gan dy wefusau mad!
Cysg yr un bach yn dawel,
Nac ofna unrhyw gam,
Gorphwysa'th emrynt cysglyd
Ar fynwes hoff dy fam.

Daw ar y llygad yna,
Fy mhlentyn anwyl daw,
Y cwsg ag sydd yn cadw
Oddiwrthyf fi 'mhell draw.
Dy feithrin, dy amddiffyn,
Yw gwaith fy nghalon i;
Melus yw gwilied drosot—
Yn unig drosot ti.

Mae'i freichiau ef yn syrthio,
Mae'i lygaid wedi cau;
Nid yw'n breuddwydio am niwed,
Mae'n cysgu'r plentyn mau.
Pe na bai ar ei ruddiau
Wrid coch fel cochni'r lloer,
Chwi dd'wedech fod e'n cysgu
Ar freichiau'r angau oer.

O! deffro blentyn, deffro!
Mae'm ofn yn ormod pwn,
O deffro! symud ymaith
Y meddwl marwol hwn:
Dy lygaid perlaidd agor
Am foment, pe ond un!
Rho immi, rho esmwythder,
Er aflonyddu'th hun.

Gamsynied hoff! cwsg ydoedd!
Ces anadl etto 'nawr;
Freuddwydion mwyn, o deuwch,
Rhowch im' esmwythder awr.
Pryd daw dy dad, o dywed?
(Ofer dysgwyliaf fi)
I wilied gyda'th fammi
Dy wenau siriol ôi.

T——.

YR HAUL A'R LLEUAD.

"Hawyr! pa beth yw'r huan?"—poeth ael-
Y peth elwir *taran:* [wyd
Olwyn aur yn lân eirian,
Neu fyd od enbyd o dân.

"Beth yw'r lloer a'i lliw eirian?"—unol
Neu lwyth o sêr gloew-lân; [haid,
Cylchyn oer, calch neu arian,
Neu erw glir o wynrew glân.

CAWR AYRON.

DAU ENGLYN

I J. W. Jones, Ysw., Llwynygroes, Llanwnen. Buddugol yn Nghymdeithas Gystadleuol Ystrad, Ebrill 9, 1860.

I Jones Llwyn'groes oes o hedd,—i'n Llywydd
Galluog rhown foledd:
Tlodion, gwaelion a goledd;
Noddi'i wlad rydd iddo wledd.

Hedd-ynad doeth, haeddiannawl—o glodydd
Yw'n Gwladwr urddasawl;
Pleidiwr y Gwir, paladr gwawl,
Ydyw'n gwron dyngarawl.

Cribyn. D. THOMAS.

Y GWANWYN.

O DEFFRO fy awen fach fwynaidd i ganu
Rhyw ganiad i'r Gwanwyn sy'r awrhon yn gwenu;
O mor ogoneddus yw trwst ei ddyfodiad—
Pob enaid meddyliol a lenwir a theimlad.

Y mae yr olygfa yn hardd a godidog,
Wrth weled gwrthrychau holl anian mor serchog;
Y maesydd, y bryniau, a'r dolydd meillionog,
Y blodau amryliw, a'r goedwig wyrddeiliog.

Awn allan i'r maesydd i rodio'n arafaidd,
I weled prydferthwch y boreu teg hafaidd;
Y gwlith sydd fel perlau ar rudd y rhosynau,
A'i hysgwyd yn dirion wna'r awel fach denau.

Yr afon ddolenog drwy'r dolydd sy'n teithio
Yn mlaen yn arafaidd ond prydferth diflino;
O'i hamgylch mae lluaws o goedydd gwyrddleision,
Lle pyncia yr adar eu peraidd alawon.

Pe byddwn yn berchen ar gyfoeth y ddaear,
Fe'i rhoddwn yn ddiddig, heb deimlo dim —galar,
Pe gallwn i ganu mor bêr a'r aderyn
Sy'n seinio ei odlig yn awr ar y brigyn.

Ni wnaethwn ond canu drwy 'mywyd bach yma,
Ganiadau ardderchog o glod i'r Gorucha',
Am wneuthur y ddaear i gyd mewn hawddgarwch,
A rhoi i ni Wanwyn mor llawn o brydferthwch.

Ond ni chaf hyn yma o fraint ar y ddaear,
Ac ni chaf fawr hamdden i wrando yr adar;
Ond rhaid i mi wrando ar dwrw dynolion
Yn mathru eu gilydd 'run wedd ag ynfydion.

O Wanwyn! O Wanwyn! ti dduwies fwyn i'enctyd,
Y mae yr olygfa yn ddarlun o fywyd
Yr ieuanc glân-hoenus yn mlodau ei ddyddiau,
Heb gwrdd ar y ddaear ond 'chydig flinderau.

Clynpebyll. YSTYFYN LEWIS.

ANERCHIAD

I Miss Ann Sims, merch fechan Mr. David Sims, Castellnedd.

Trwy Gastellnedd unwaith teithiwn,
Er fy syndod yno gwelwn,
Pan gwnai'r eira gyd-raddoli
'R dyffryn teg a'r bryn uchelfri,
Un oedd degach fil na'r lili:
Yn ei gwedd gwnawn ymwresogi;
Pwy oedd hon ond merch yr enwog
Sims, y Cymro gwir odidog?

Gwyddom nad oedd teyrn y gerddi
A'i rudd mor hardd, er yn rhagori
Ar ei gyd-ryw addurn daiar,
Sy fyrdd harddach na'r ser llachar.

Am frodorion Gwynfa landeg
Byth na sonier wrthyf chwaneg:
Dyma ddarlun a'm addysga
Beth yw harddwch engyl Gwynfa.

Pe gofynid am wir berlau,
Mi gyfeiriwn at ei gruddiau;
Yno gwelir ol llaw anian
Wedi cerfio delw'i hunan.

Fel eiddo'i thad, 'n llawn bo'i chalon
O wir sel dros lwydd y Brython:
Dyna harddwch penaf Cymru,
Arno y mae'r Nef yn gwenu.

Gofal dibaid Llyw y bydoedd
Gadwo ANN yn ddiargyhoedd:
I'w rhieni boed yn goron,
Hyn ddymuna pob gwir Frython.

Ail i Liza Cook ysblenydd
Fyddo ANN yn tanio'r gwledydd!
Tithau, Gwalia, ymddeffröa,
Doniau'th ferched ymgoledda.

Y mae'r Saison yn ymnoddi
'R awen wir, a'i gwerthfawrogi:
Pa le bynnag wnel flodeuo,
Llygad Lloegr sy'n ei gwylio.

Ffrydiau'u serch a'i hamgylchyna,
Llaw y Genedl a'i cynnalia;
Felly bo hen Wlad y *Cenin*,
Ac nid sathru bob eginin.

Ffei o'r gwŷr sy'n ymhyfrydu
Mathru ceinwedd obaith CYMRU!
Pe cenfigen wnelai'u magu,
Llawn fai'n gwlad o feirdd anwylgu.

Byth na welo ANN un alon
A ofidia'i thyner galon;
Ac yn ein gwlad boed hi'n ymserchu,
A'n hoff IAITH, prif falchder Cymru.

G. BRYCHEINIOG.